Materion Cydraddoldeb

Arweiniad arfer da

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Materion Cydraddoldeb
Côd stoc EMGW
ISSN Argraffu 1744-4756
ISSN (Ar-lein) 1744-4764
Copïau pellach ar gael o:
E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0845 4 10 20 30
Ffôn testun 0845 6 02 16 59
Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk
Ysgrifennwyd gan: Susan Elisabeth (Ymgynghorydd annibynnol)

Hygyrchedd
Cysylltwch a ni i drafod unrhyw anghenion cyfarthebu arbennig sydd gennych os gwelwch yn dda.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogir amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn poeni am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a defnyddio adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i hymrwymo i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, fel cyflogwr ac ariannwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn amcanu i fabwysiadau dull cynhwysol i sicrhau fod ymgeiswyr a derbynwyr grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi ac aelodau staff yn cael eu trin â thegwch.

©Cronfa Loteri Fawr, Gorffennaf 2008

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Adran 1: Y Gronfa Loteri Fawr: ein hymdriniaeth tuag at gydraddoldeb 5

Adran 2: Ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr: meddwl am gydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf 9

Adran 3: Nawr eich bod wedi ennill y grant: cydraddoldeb ar waith 24

Cefnogaeth pellach

A: Y gyfraith a chydraddoldeb 27

B: Chwalu jargon 39

C: Siartiau cynllunio cydraddoldeb 43

D: Manylion cyswllt allweddol 47

Cyflwyniad

Mae cydraddoldeb o bwys i'r Gronfa Loteri Fawr. Rydym eisiau defnyddio arian y Loteri er mwyn cyflwyno newidiadau i gymunedau drwy ariannu pobl, prosiectau a rhaglenni, gyda phwyslais penodol ar fynd i'r afael ag angen. Mae'r arweiniad hwn yn rhan o'n gyriant i hyrwyddo cydraddoldeb a gwella cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn prosiectau yr ydym yn eu hariannu.

Wrth roi cydraddoldeb wrth galon cynllunio a gweithredu'r prosiect, mae sefydliadau'n fwy tebygol o gyflawni canlyniadau gwell.

Am yr arweiniad yma

Mae hwn yn arweiniad ymarferol. Fe'i cynlluniwyd i'ch helpu i feddwl am eich arfer dyddiol ar gydraddoldeb a'i ddisgrifio. Mae wedi'i anelu'n benodol at sefydliadau bach neu ganolig y sector gwirfoddol neu gymunedol, pa un a ydynt yn gwneud cais i'r Gronfa Loteri Fawr am arian ai peidio.

Nod yr arweiniad hwn yw'ch helpu i adnabod yr hyn yr ydych eisoes yn ei wneud yn dda yn eich ymdriniaeth tuag at faterion cydraddoldeb, a'ch helpu i adnabod sut y gallwch wella ar hynny. Serch hynny, yn y pendraw, eich dewis chi yw faint yr ydych chi eisiau ystyried materion cydraddoldeb.

Nod yr arweiniad yw'ch helpu mewn tair ffordd:

1. Mae'n rhoi help ymarferol ar sut i gynnwys cydraddoldeb wrth gynllunio prosiectau newydd.

2. Mae'n esbonio egwyddorion cydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr a pham ei bod yn bwysig talu sylw i'r rhain os ydych chi'n ymgeisio am grant gan y Gronfa Loteri Fawr. Yn gyffredinol byddem yn disgwyl i chi ddangos ymrwymiad tuag at gydraddoldeb, sy'n gyfatebol i natur a maint eich prosiect a sefydliad.

3. Mae'n esbonio sut y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'ch sefydliad weithredu cydraddoldeb ar ôl i chi dderbyn grant.

Ar hyd y ffordd, byddwn yn darparu ymarferion ac awgrymiadau ymarferol. Byddwn hefyd yn edrych ar rai o'r camgymeriadau cyffredin y mae ymgeiswyr grant yn eu gwneud, a byddwn yn darparu enghreifftiau o arfer da o geisiadau blaenorol i'r Gronfa Loteri Fawr.

Adran 1
Y Gronfa Loteri Fawr: ein hymdriniaeth tuag at gydraddoldeb

1. Beth a olygir wrth gydraddoldeb?
Mae cydraddoldeb yn derm llaw-fer am yr holl waith y mae sefydliad yn ymgymryd ag ef er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal a herio gwahaniaethu, o fewn cyflogaeth ac wrth ymgymryd â'i waith a chyflwyno gwasanaethau.

2. Beth yw chwe egwyddor cydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr?
Nod y Gronfa Loteri Fawr yw cefnogi prosiectau sy'n cynnig gwelliannau gwirioneddol i gymunedau a bywydau'r bobl sydd â'r angen mwyaf. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw, rydym wedi mabwysiadu chwe egwyddor cydraddoldeb er mwyn tanategu ein gwaith. [Sylwer nid yw'r rhestr hon mewn trefn blaenoriaeth]. Disgwyliwn i unrhyw sefydliad y byddwn yn ei ariannu rannu ein hymrwymiad i'r egwyddorion hyn:

Hyrwyddo mynediad hawdd
Dylai pobl fod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn weddol hawdd, heb orfod treulio gormod o amser na gwario gormod o arian a dylent fod yn sensitif i wahanol anghenion y bobl sy'n eu defnyddio.

Gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol
Mae gan bobl wahanol anghenion, credoau, gwerthoedd a galluoedd a rhaid parchu a hyrwyddo'r gwahaniaethau hyn. Mae amrywiaeth diwylliannol o fewn sefydliad yn helpu i:

- feithrin ymddiriedaeth a hyder rhwng amrywiol gymunedau
- darparu cymysgedd cyfoethocach o syniadau a thalentau i dynnu ohonynt
- creu proses fwy effeithiol ac effeithlon o wneud penderfyniadau.

Hyrwyddo cyfranogiad
Mae'r gwasanaethau gorau wedi'u seilio ar ddealltwriaeth dda o'r anghenion y maent yn ceisio eu bodloni. Golyga hyn y dylid cysylltu â'r bobl y bydd y gwasanaethau yn effeithio arnynt wrth eu datblygu, oherwydd y hwy sy'n gwybod orau beth yw eu hanghenion. Yn draddodiadol, tueddir i ymgynghori a chysylltu gyda rhai grwpiau yn fwy nac eraill. Yr her i lawer o sefydliadau yw ymestyn allan a chynnwys grwpiau sy'n aml yn cael eu gadael allan, a'u helpu i gymryd rhan fwy gweithredol wrth lunio'r gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud.

Hyrwyddo cyfle cyfartal
Mae rhai grwpiau yn y gymuned yn ei chael yn anos cael swyddi ac mae'n bosibl y byddant hefyd yn ei chael hi'n anos cael defnydd o'r gwasanaethau, neu'n ei chael yn anos defnyddio'r gwasanaethau hynny. Credwn y dylem greu maes chwarae gwastad i bawb ac fe allai hyn olygu trin pobl yn wahanol er mwyn eu helpu i gael yr un cyfle i gymryd rhan mewn gwaith neu mewn gwasanaethau lleol.

Hyrwyddo cymunedau cynhwysol
Rydym eisiau helpu i adeiladu cymunedau cryfach, lle bydd:

- pobl yn teimlo eu bod yn perthyn
- eu bywydau yn cael eu gwerthfawrogi
- gan bobl gyfleoedd bywyd tebyg, a
- pherthnasau cryf a phositif yn datblygu rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

Lleihau anfantais ac allgau
Er mwyn helpu'r rheini sydd fwyaf wrth risg o fod dan anfantais neu wedi'u heithrio o waith neu wasanaethau, rhaid cael mentrau sy'n:

- ymdrin ag achosion anfantais ac allgau, a
- hyrwyddo cynnwys y mwyaf difreintiedig ac eithriedig.

3. Beth mae difreintiedig yn ei olygu?

Mae gan bobl ddifreintiedig neu eithriedig lai o gyfleoedd na'r rhan fwyaf o bobl yn y gymdeithas o'u hamgylch neu nid ydynt yn rhannu'r un ansawdd bywyd â'r rheini o'u hamgylch.

Gall pobl fod yn ddifreintiedig o ganlyniad i nifer o ffactorau gwahanol yn eu bywydau. Weithiau mae anfantais wedi'i gysylltu â thlodi; weithiau mae o ganlyniad i fathau eraill o wahaniaethau rhwng pobl. Mae anfantais yn amrywio rhwng gwahanol gymunedau ac o fewn cymunedau.

Gallai grwpiau difreintiedig gynnwys:

- pobl sy'n ddi-waith
- rhieni sengl
- pobl gyda chyfrifoldebau gofalu
- teuluoedd ar incwm isel
- pobl sengl sy'n ddigartref
- pobl ifanc
- cyn-droseddwyr
- pobl gyda sgiliau darllen & ysgrifennu gwael
- pobl ifanc yn gadael gofal
- pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol
- Teithwyr
- pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig arunig
- pobl y mae Saesneg yn ail iaith iddynt.
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Mae rhai pobl yn profi mwy nac un ffurf ar anfantais e.e. cyn-droseddwyr gyda sgiliau darllen ac ysgrifennu gwael, rhieni sengl mewn ardaloedd gwledig arunig neu bobl ifanc anabl sy'n gadael gofal. Mewn achosion fel y rhain, bydd eu hanghenion yn arbennig o ddifrifol.

Mae'r gyfraith yn adnabod y gall rhai grwpiau o bobl o fewn ein cymdeithas brofi gwahaniaethu, ac mae'n ceisio eu hamddiffyn.

O ganlyniad, ni ellir gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail:

a eu rhyw/rhywedd

b eu hil/ethnigrwydd

c eu crefydd neu gred

d eu cyfeiriadedd rhywiol

e eu hoedran.

nac oherwydd eu bod:

f yn anabl

g yn feichiog

h yn briod neu

i mewn partneriaeth sifil.

Yn ychwanegol at hynny, yng Ngogledd Iwerddon ni ellir gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail barn wleidyddol, nac oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.

Yng Nghymru, **rhaid** i sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar ran awdurdod cyhoeddus ymgymryd â'u gwaith ar sail cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn yr Alban, cynghorir sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar ran awdurdod cyhoeddus y **dylent** ymgymryd â'u gwaith ar sail cydraddoldeb rhwng yr Aeleg a'r Saesneg.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'r holl ymgeiswyr gydymffurfio gyda'r gyfraith a dangos eu bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n cydnabod hawliau'r holl grwpiau sy'n cael eu hamddiffyn gan y gyfraith. (Mae crynodeb o'r holl ddarnau deddfwriaethol perthnasol ar gael o fewn adran 'cefnogaeth bellach' yr arweiniad hwn).

Serch hynny, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn adnabod nad yw grwpiau y mae'r gyfraith yn eu diogelu o reidrwydd o dan anfantais yn awtomatig. Er enghraifft felly, pe bai eich grŵp yn gweithio gyda dynion hoyw, byddai'n rhaid i chi ddangos eu bod yn wynebu anfantais er mwyn sicrhau grant y Gronfa Loteri Fawr. Yn anad dim, rydym eisiau gwybod pwy sy'n profi anfantais yn eich cymuned a'r hyn yr ydych chi'n ei wybod am eu hanghenion.

O fewn cais grant da, rydym yn edrych i weld a allwch chi ddisgrifio:

- y mathau o anfantais a brofir yn eich cymuned
- sut y bydd eich prosiect yn bodloni anghenion grwpiau difreintiedig, pa un a yw'r gyfraith yn eu diogelu ai peidio
- sut y byddwch yn ceisio cynnwys grwpiau difreintiedig yn ddyddiol yn eich gwaith, gydag enghreifftiau ymarferol.

4. A ddylem anelu ein prosiect at y gymuned gyfan, neu ei dargedu at grwpiau difreintiedig?

Mae dwy ymdriniaeth eang tuag at hyrwyddo cydraddoldeb.

Y cyntaf yw creu gwasanaethau i'r gymuned gyfan, gan gynnwys grwpiau difreintiedig. Fe allai olygu gwneud ystod o newidiadau i'r ffordd yr ydych chi'n gweithio fel bod pobl o grwpiau difreintiedig yn gwybod am eich prosiect, yn cael eu croesawu ac yn gallu defnyddio'ch gwasanaethau. Gelwir hyn weithiau yn defnyddio **ymdriniaeth gynhwysol.**

Yr ail ymdriniaeth yw sefydlu prosiect sydd wedi'i anelu at grŵp difreintiedig penodol, er mwyn dwyn pobl ynghyd sy'n rhannu profiadau tebyg. Eto fe allai olygu meddwl mewn ffyrdd newydd am y ffordd yr ydych chi'n gweithio er mwyn i'r bobl hyn ddefnyddio'r prosiect newydd. Gelwir hyn weithiau yn defnyddio **ymdriniaeth wedi'i thargedu.**

Enghraifft o ymdriniaeth gynhwysol

Roedd asiantaeth gynghori eisiau ymateb i alw cynyddol am ei wasanaethau. Ynghyd â darparu rhagor o sesiynau wyneb yn wyneb, fe sefydlodd wasanaeth cynghori ar y ffôn a thrwy e-bost hefyd.

Y nod oedd cynyddu nifer y bobl yr oeddynt yn eu helpu, ond hefyd gwella mynediad i'r rheini a oedd yn ei chael yn anodd teithio i un o swyddfeydd yr asiantaeth - pobl hŷn, pobl anabl; ynghyd â'r rheini nad oeddynt yn gallu mynychu sesiynau yn ystod oriau agor arferol, megis pobl ifanc a'r rheini a oedd yn gweithio.

Golygodd hyn hefyd eu bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o gynghorwyr a oedd â sgiliau iaith gymunedol. Yn hytrach na theithio i wahanol swyddfeydd, gallai'r cynghorwyr ffonio pobl yn ôl.

Drwy newid ei hymdriniaeth, cynyddodd yr asiantaeth gynghori niferoedd y bobl yr oeddynt yn gallu eu helpu yn sylweddol, a gwneud hynny mewn modd a oedd yn gwella mynediad ar gyfer ystod o grwpiau yn y gymuned gydag anghenion penodol.

Adran 1

Enghraifft o ymdriniaeth wedi'i thargedu

Rhedodd canolfan gymunedol sy'n gwasanaethu ardal ganol dinas amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys gwaith ieuenctid, meithrinfa, clybiau ar ôl ysgol, clwb cinio ar gyfer pobl hŷn, prosiect iechyd a hyfforddiant sgiliau TG.

Er eu bod mewn cysylltiad gyda nifer fawr o bobl hŷn, nid oedd unrhyw un dros 50 yn cofrestru ar gyfer eu cyrsiau TG.

Aethant at y bobl a oedd yn mynychu eu clybiau cinio a'r bobl hŷn a oedd yn gysylltiedig â'u prosiect iechyd er mwyn gweld beth oedd y rheswm dros hyn. Y farn oedd:

- Bod pobl hŷn yn teimlo wedi'u dychryn gan yr hyn yr oeddynt hwy'n ei weld fel hyder y bobl iau gyda TG.
- Bod pobl hŷn eisiau dysgu ar gyflymdra mwy hamddenol nac oedd yr hyfforddiant cyfredol yn ei ganiatáu, ac eisiau dysgu am resymau gwahanol.
- Bod pobl hŷn eisiau defnyddio TG yn bennaf am resymau cymdeithasol a theuluol, yn hytrach na sicrhau cymhwyster TG, sefyll arholiadau neu brofion.

Teimlodd y prosiect os oeddynt am fodloni'r nod o bontio'r "rhaniad digidol" yn eu cymuned yn llawn, y byddai'n rhaid iddynt sefydlu gwasanaeth penodol ar gyfer pobl hŷn, a oedd yn cydnabod eu hanghenion a'u diddordebau penodol. Crëwyd cyfres o weithdai newydd, anffurfiol er mwyn dod ag arbenigedd TG i'r bobl hŷn yn lleol.

Gall y Gronfa Loteri Fawr gefnogi'r naill un neu'r llall o'r ymdriniaethau hyn tuag at gydraddoldeb. Serch hynny, yn gyffredinol mae'n well ganddi weld prosiectau sy'n defnyddio ymdriniaeth gynhwysol ac sy'n anelu at wneud eu gwaith yn hygyrch i ystod eang o grwpiau yn y gymuned leol. Dylech gofio ei bod hi'n bosibl y bydd gan ariannwyr eraill ymdriniaeth wahanol tuag at hyn.

Os dymunwch i'r Gronfa Loteri Fawr roi arian ar gyfer prosiectau wedi'u targedu, rhaid i chi ddangos mai dyma'r unig ffordd o fodloni anghenion y grŵp yr ydych chi'n ei dargedu. O fewn yr ymdriniaeth hon byddai'n rhaid i chi ddangos eich bod yn rhoi ystyriaeth i faterion amrywiaeth.

Yn yr enghraifft a ddangosir, er enghraifft, byddai'n rhaid i'r ymgeiswyr sicrhau y gallai pobl hŷn o gymunedau lleiafrifoedd ethnig neu bobl hŷn gyda chyfrifoldebau gofalu ddefnyddio'r prosiect.

Adran 2
Ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr: meddwl am gydraddoldeb o'r cychwyn cyntaf

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr ystod eang o raglenni y gall sefydliadau ymgeisio ar eu cyfer. Gall y ffurflenni a'r prosesau ymgeisio fod yn wahanol, gan ddibynnu ar y rhaglen yr ydych chi'n ymgeisio ar ei chyfer, maint y grant yr ydych chi'n gofyn amdano, a pha un a ydych chi'n ymgeisio ar eich pen eich hun, neu gyda sefydliadau eraill.

Golyga hyn ei bod yn anodd cyffredinoli am faint o wybodaeth y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i chi ei rhoi am eich arferion cydraddoldeb. A siarad yn gyffredinol, po fwyaf yw'r grant yr ydych chi'n gofyn amdani, y mwyaf o wybodaeth y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gofyn amdani oddi wrthych.

Sut i gael y gorau o'r adran hon

Mae'r adran hon yn dilyn pedwar cam allweddol ym mhroses gynllunio eich prosiect:

- deall yr angen a'ch buddiolwyr
- bod yn glir am eich nodau, y canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud
- cyrraedd yr holl fuddiolwyr posibl a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect
- archwilio materion rheoli a pholisi.

Mae'r adran hon yn defnyddio'r un ymdriniaeth eang ag arweiniad blaenorol y Gronfa Loteri Fawr tuag at ddefnyddio ymdriniaeth ganlyniadau 'Esbonio'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil eich prosiect'.

Y ffordd hon, gobeithiwn ddangos sut y gellir meddwl am ystyriaethau cydraddoldeb ar hyd pob cam o broses gynllunio eich prosiect.

Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl i chi ddangos ymrwymiad tuag at gydraddoldeb, sy'n gyfatebol i natur a maint eich prosiect a sefydliad. Serch hynny, yn y pendraw, eich dewis chi yw faint yr ydych chi eisiau ystyried materion cydraddoldeb.

Rydym yn defnyddio astudiaeth achos o ganolfan deuluol ffug drwyddi draw'r adran hon, er mwyn dangos sut y gall sefydliad fynd i'r afael â materion cydraddoldeb wrth gynllunio a chyflwyno'i wasanaethau. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwneud pethau'n haws i weld sut y mae theori yn troi'n arfer. Rydym hefyd yn cynnwys rhai astudiaethau achos sefydliadau real sydd wedi ymgeisio'n llwyddiannus i'r Gronfa Loteri Fawr.

Mae'n bosibl mai'r ffordd orau i fynd ati yw darllen drwy'r adran hon, yna gweithio gyda phobl eraill yn eich prosiect er mwyn llenwi'r siartiau yn adran 'cefnogaeth bellach' yr arweiniad hwn. Rydym wedi darparu'r siartiau fel ymdriniaeth awgrymedig, ond nid yw'n orfodol eu cwblhau ac nid oes gofyn i chi gyflwyno'r wybodaeth hon gyda'ch cais.

Os byddwch yn penderfynu defnyddio'r siartiau, mae'n bwysig cwblhau un cam cyn mynd i'r afael â'r nesaf, gan eu bod yn adeiladu ar ei gilydd.

Ar ôl i chi orffen llenwi'r siartiau, dylech fod â'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch er mwyn dangos i'r Gronfa Loteri Fawr yn eich cais eich bod yn ymdrin â materion cydraddoldeb yn ddifrifol yn eich gwaith. Mae'r siartiau hefyd yn cynnwys awgrymiadau yn dweud wrthych chi pa gwestiynau ar y ffurflen gais y gallai'r wybodaeth berthyn iddi.

Adran 2

Cofiwch!

- Mae'n gamgymeriad meddwl mai dim ond yn y cwestiwn cyfle cyfartal y dylech ddisgrifio eich ymdriniaeth tuag at gydraddoldeb. Mae'r ceisiadau gorau yn dangos pryder dros faterion cydraddoldeb ar hyd pob cam.
- Yn gyffredinol, disgwylir i'r sefydliadau mwy a phrofiadol a'r rheini sy'n gofyn am grantiau mwy roi'r wybodaeth fwyaf am eu hymdriniaeth tuag at gydraddoldeb.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol oherwydd eich bod yn gweithio gydag un grŵp difreintiedig penodol eich bod wedi bodloni'ch holl ymrwymiadau cydraddoldeb. Er enghraifft, mae'n bosibl eich bod yn gweithio gyda chyn-droseddwyr, ond a yw'ch sefydliad yn cael ei ddefnyddio gan fenywod ynghyd â dynion, a chan bobl o wahanol oedran?

Cam 1
Cynllunio'ch prosiect: deall yr angen a'ch buddiolwyr

Dyma'r cam cyntaf wrth lunio eich cais, a dyma'r fan hefyd i gychwyn meddwl am gydraddoldeb. Mae'n bosibl y bydd gennych syniad clir am yr hyn y dymunwch ei wneud – yn aml oherwydd bod eich gwaith cyfredol wedi dangos i chi bod angen heb ei fodloni neu broblem sy'n rhaid mynd i'r afael â hi yn eich cymuned.

Mae'n bosibl y bydd amryw fathau o dystiolaeth y byddwch eisiau eu defnyddio er mwyn cefnogi'ch cais:

- eich profiad eich hunan, o'ch cyswllt dyddiol
- ystadegau am yr ardal leol a'i phoblogaeth o'r cyfrifiad cenedlaethol neu arolygon eraill (yn aml mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi crynodebau defnyddiol)
- peth ymchwil penodol yr ydych chi neu sefydliad arall wedi ymgymryd ag ef
- adborth oddi wrth bobl gyda phrofiad o'r angen.

Mae'n bwysig dwyn i gof er bod eich gwybodaeth yn bwysig, mae'n bosibl ei bod wedi'i seilio ar brofiadau'r bobl sy'n defnyddio'ch prosiect yn barod.

Beth yr ydych chi'n ei wybod am grwpiau yn eich cymuned a allai elwa o'r gwaith y bwriadwch ei wneud, ond nad ydynt eisoes mewn cysylltiad â chi? Fel arall, mae'n bosibl y byddwch yn adnabod bod angen nad ydych yn ei fodloni, ond nad ydych chi'n gwybod y ffordd orau i fynd i'r afael ag ef, gan nad ydych chi mewn cysylltiad gyda phobl yr effeithir arnynt.

Y naill ffordd neu'r llall, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi feddwl yn greadigol am sut y gallwch gysylltu gyda phobl nad ydynt eisoes yn defnyddio'ch prosiect, er mwyn i chi siarad â hwy am eu hanghenion a sut y gallwch eu hannog i ddefnyddio'ch prosiect.

Adran 2

Cwestiynau allweddol cydraddoldeb:

- A allwch chi adnabod yn hyderus y gwahanol fathau o anfantais y mae pobl yr ydych chi'n eu gwasanaethu yn eu hwynebu?
- Sut allwch chi ymestyn allan at bobl neu grwpiau difreintiedig er mwyn gweld beth yw eu hanghenion?
- A ydych chi wedi ystyried anghenion grwpiau yn y gymuned nad ydynt yn defnyddio'ch gwasanaethau ar hyn o bryd?
- A yw eu hanghenion yr un peth â rhai'r grwpiau yr ydych chi eisoes yn eu hadnabod yn dda? Os nad ydynt, sut maent yn wahanol?

Enghraifft: Canolfan leol i deuluoedd

Mae'r ganolfan hon yn bodoli ers 20 mlynedd ac yn gwasanaethu cymuned gyda chyfran uchel o blant a phobl ifanc. Teuluoedd rhieni sengl yw 25 y cant o'r teuluoedd lleol.

Mae'r ganolfan yn rhedeg dosbarthiadau rhianta rheolaidd, sesiynau addysg teuluol yn canolbwyntio ar ddarllen, mathemateg a TG, canolfan gynghori, dosbarthiadau paratoi ar gyfer swyddi, a diwrnodau hwyl a gwibdeithiau teuluol yn ystod gwyliau'r haf.

Mae wedi adnabod mai menywod yw 80 y cant o'r oedolion sy'n defnyddio'r ganolfan yn rheolaidd. Mae diffyg penodol o ran dynion ifanc sy'n defnyddio'r ganolfan.

Mae llawer o wybodaeth am eich ardal ar gael o'r sefydliadau a ganlyn:

Cronfa Ddata Cymdogaeth Ystadegau Gwladol

www.statistics.gov.uk

Ffôn: 0845 6013034

Adran 2

Cam 1: deall yr angen a'ch buddiolwyr posibl

Beth yw'r angen?	Pwy allai elwa o'r prosiect? O fewn y grŵp hwn, a oes unrhyw grwpiau yn wynebu anfantais benodol?	A ydym ni eisoes mewn cysylltiad â hwy?	Sut allwn ni ddysgu'r hyn sydd ei angen arnynt?	Beth maent wedi'i ddweud wrthym am eu hanghenion?
Nid yw tadau ifanc yn chwarae rhan weithredol ym mywydau eu plant.	Dynion ifanc 16 – 25 mlwydd oed, pa un a ydynt yn byw gyda'u plant ai peidio Dengys ystadegau: ▶ bod 50 y cant yn wyn ▶ 40 y cant o'r gymuned Pobl Dduon Carabiaidd ▶ a daw 10 y cant o'r gymuned Asiaidd.	–dim llawer ohonynt. ▶ Nid ydynt yn dod i'n cyrsiau "Pŵer Rhieni", nac ein diwrnod hwyl i'r teulu. Roedd rhai yn arfer dod i'r ganolfan pan oeddynt yn blant.	▶ Ewch i siarad â hwy mewn mannau lle gwyddys bod dynion ifanc yn ymgasglu. Er enghraifft clybiau chwaraeon, canolfannau ieuenctid a siopau bwyd parod lleol. ▶ Cynhaliwch gyfarfod ymgynghori a gwahoddwch dadau ifanc drwy adael taflenni yn yr un mannau.	▶ Credant mai "pethau merched" yw materion teuluol ac nid yn rhywbeth "i ddynion". ▶ Maent yn ei chael hi'n anodd siarad am eu teimladau. ▶ Maent yn ei chael hi'n anodd trafod gyda'u partneriaid/ cynbartneriaid am eu plant. ▶ Mae tadau ifanc Asiaidd dibriod yn wynebu stigma o fewn eu cymuned.

Cofiwch!

Y peth pwysicaf ar hyn o bryd yw meddwl am bawb a all elwa o'ch prosiect, nid dim ond y bobl yr ydych chi eisoes mewn cysylltiad â hwy. Cefnogwch yr hyn yr ydych chi wedi'i ddysgu yn eich gwaith beunyddiol gyda:

- ffeithiau a ffigurau perthnasol, a
- yr hyn mae pobl a allai ddefnyddio'r prosiect yn ei ddweud am yr hyn sydd angen arnynt.

Byddwch yn barod i estyn allan at grwpiau yn y gymuned nad ydych yn eu hadnabod yn dda. Darganfyddwch sut y gallai eich prosiect eu helpu.

Adran 2

Tynnir yr astudiaeth achos a ganlyn o gais diweddar i un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'n dangos sefydliad a weithiodd yn galed i ddeall anghenion y bobl yr oeddynt yn ceisio eu cyrraedd. Fe wnaethant sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r data ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi yna aethant ati i gysylltu gyda chynifer o ddefnyddwyr potensial â phosibl. Roeddynt yn greadigol iawn yn y ffordd y gwnaethant hyn ac erbyn diwedd yr ymgynghoriad, roeddynt yn gallu dangos dealltwriaeth ddofn o'r hyn yr oedd pobl ifanc yn eu hardal ei eisiau a'i angen.

Astudiaeth achos arfer da

Ymestyn allan: arfer da mewn ymgynghori

Roedd prosiect ieuenctid yng Ngogledd Iwerddon eisiau denu pobl ifanc a oedd y tu hwnt i fywyd cymunedol prif ffrwd. Ar ôl ymchwilio i'r ardal yr oeddynt yn byw ynddi, roeddynt yn gwybod ei bod ymhlith 5 y cant o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon. Roedd ganddi hefyd niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl ifanc yn byw o'i mewn – 3,500 i gyd.

Gofynnodd yr ymgeiswyr i bwyllgor ieuenctid y clwb (pob un ohonynt yn bobl ifanc rhwng 12 a 18) i gynllunio proses ymgynghori er mwyn iddynt weld beth yn union yr oedd pobl ifanc yr ardal ei eisiau. Aethant ati i weithio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Rhoddwyd nifer targed o bobl ifanc a oedd eisoes yn mynychu'r clwb i bob aelod o'r pwyllgor ieuenctid siarad â hwy a dod â'r wybodaeth hon yn ôl i'r pwyllgor (ymgynghorwyd â 225 o bobl ifanc).
- Aeth defnyddwyr y prosiect ieuenctid allan i ystadau lleol er mwyn siarad â phobl ifanc eraill mewn siopau, clybiau, corneli strydoedd ayyb. Roedd y dulliau yn amrywio o lenwi holiaduron i sgyrsiau anffurfiol. Cymrodd 450 o bobl ifanc ran.
- Trefnodd y prosiect ieuenctid gynhadledd undydd, lle dywedwyd wrth y bobl ifanc beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad hyd at hynny, a chynhaliwyd rhagor o drafodaethau mewn gweithdai. Cymrodd 237 o bobl ifanc ran yn y digwyddiad hwn.

Dros gyfnod o dri mis llwyddodd y prosiect i siarad ag ymron i drydydd o bobl ifanc yn eu dalgylch. O blith y rhain, dim ond un rhan o dair a oedd eisoes yn defnyddio'r prosiect.

Roedd y cais i'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio arian i sefydlu ystod o raglenni byr yn ymwneud â'r materion a adnabuwyd drwy ymgynghori. Drwy geisio barnau'r bobl ifanc nad oeddynt eisoes yn defnyddio'r prosiect, sicrhaodd yr ymgeiswyr bod eu gweithgareddau a'u gwasanaethau yn bodloni anghenion holl bobl ifanc yr ardal.

Adran 2

Cam 2
Byddwch yn glir am eich nodau, canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud

Unwaith yr ydych chi'n glir am anghenion eich prosiect, gallwch benderfynu pa wahaniaeth y dymunwch ei wneud, a sut y bwriadwch wneud y gwahaniaeth. Ar y pwynt hwn mae'n bosibl y byddwch eisiau gwneud dewisiadau ynghylch a fydd eich prosiect yn cynnig gwasanaethau sy'n hygyrch i'r gymuned gyfan, gan gynnwys grwpiau difreintiedig (ymdriniaeth gynhwysol) neu pa un a ydych chi eisiau sefydlu prosiect sydd wedi'i anelu at grŵp difreintiedig penodol (ymdriniaeth wedi'i thargedu).

Yn enghraifft y ganolfan deuluol yr ydym yn ei defnyddio, mae elfennau o'r ddwy ymdriniaeth. Mae'r ganolfan yn cynnig adolygu ei gweithgareddau cyfredol er mwyn eu gwneud yn "fwy cyfeillgar i dadau" ac er mwyn sefydlu rhai gweithgareddau newydd a fydd yn ymateb i anghenion tadau lleol, ond a fydd ar gael i'r holl rieni hefyd.

Ar y llaw arall, mae rhai gweithgareddau wedi'u targedu yn cael eu sefydlu er mwyn apelio'n benodol at dadau ifanc (y sesiynau tadau a phlant) ac mae'r ganolfan hefyd yn cynllunio prosiect penodol ar gyfer tadau Asiaidd ifanc, oherwydd eu bod hwy yn wynebu anawsterau ychwanegol wrth ymgysylltu.

Yn ymarferol, yr ymdriniaeth gymysg hon yn aml yw'r ffordd y mae sefydliadau yn ceisio agor eu gwaith i grwpiau newydd sydd ag anghenion heb eu bodloni.

Cofiwch!

Pa bynnag ymdriniaeth tuag at gydraddoldeb y byddwch yn ei dewis, rhaid i chi fod yn gallu dangos sut mae'n cysylltu gyda'r anghenion yr ydych chi wedi'u hadnabod.

Cwestiynau allweddol cydraddoldeb:

- Gan eich bod yn gwybod beth yw'r anghenion, beth yw'r gwahaniaeth cyffredinol y dymunwch ei wneud?
- Beth yw'r prif bethau yr ydych chi eisiau eu newid erbyn diwedd y prosiect? A oes unrhyw un o'r newidiadau hyn yn perthyn i grwpiau difreintiedig?
- Beth sy'n rhaid i chi wneud er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn?
- A allwch chi gyflawni'r newidiadau yr ydych chi'n eu dymuno drwy wneud eich gwasanaethau yn hygyrch i bawb yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau difreintiedig? Neu a oes yn rhaid i chi gynnig gwasanaeth arbenigol ac wedi'i dargedu? Neu'r ddau?
- Os ydych chi am gyrraedd at eich grwpiau targed, sut fydd yn rhaid i chi newid eich gweithgareddau a'ch ymdriniaeth o'r hyn yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

Adran 2

Enghraifft: Canolfan leol i deuluoedd
Cam 2: Byddwch yn glir am eich nodau, canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud

Pa wahaniaethau yr ydym eisiau eu gwneud? (nod cyffredinol)	Beth yw'r prif newidiadau yr ydym ni eisiau eu cyflawni? (canlyniadau bwriedig)	Beth fyddwn ni'n ei wneud er mwyn cyflawni hyn? (gweithgareddau)
–gwella gallu tadau ifanc i fod yn rhieni da, pa un a ydynt yn byw gyda'u plant ai peidio.	Tadau yn chwarae rhan fwy gweithredol gyda'u plant, ym meysydd: ● addysg ● iechyd ● datblygiad cymdeithasol ● chwarae. Llai o wrthdaro rhwng rhieni ifanc am fagwraeth eu plant Tadau Asiaidd ifanc yn teimlo'n llai arunig. Tadau ifanc yn mynegi mwy o hyder yn eu perthynas gyda'u plant.	Ar gyfer cyrsiau a gweithgareddau cyfredol yn y ganolfan ystyriwch sut y gellir eu gwneud yn fwy atyniadol i dadau ifanc (e.e. amseru), a gwnewch newidiadau. Darparu rhaglen "tadau a phlant" newydd, gyda sesiynau megis: ● pêl-droed ● sgiliau cyfrifiadurol, a ● bwyd a choginio. Sefydlu cwrs datrys gwrthdaro newydd ar gyfer cyplau, gan ganolbwyntio ar eu rolau fel rhieni. Creu cyfleoedd ar gyfer tadau i gefnogi ei gilydd yn eu rôl fel rhieni.

Cofiwch!

Mae'r cam hwn yn ymwneud â chynllunio da yn gyffredinol. Dylai materion cydraddoldeb ymddangos yn naturiol yn y cam hwn, cyhyd â:

- bod gennych ddealltwriaeth glir o'r broblem
- eich bod yn gwybod beth yw anghenion yr holl bobl a allai ddefnyddio'ch prosiect, a'ch
- bod wedi seilio'r hyn yr ydych chi eisiau ei wneud ar yr hyn y dywedasant hwy oedd eu hanghenion.

Adran 2

Cam 3
Sut i gyrraedd yr holl fuddiolwyr posibl a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect

Erbyn hyn, bydd gennych syniad clir am yr anghenion yr ydych chi'n ceisio'u bodloni, y bobl a fydd yn elwa o'r gwaith, a'r mathau o weithgareddau sy'n rhaid i chi eu cynnig er mwyn bodloni eu hanghenion.

Y cam nesaf yw meddwl am sut y byddwch yn sicrhau bod y bobl a allai elwa o'r prosiect yn gwybod amdano ac yn gallu ei ddefnyddio.

Mae ystod gyfan o faterion "mynediad" y mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi eu hystyried os yw'ch grwpiau targed yn mynd i ddefnyddio'ch prosiect. Bydd rhai o'r materion hyn yn fwy perthnasol i'ch prosiect nac eraill ac ni fydd rhai yn berthnasol o gwbl.

Mae'n gamgymeriad cyffredin iawn meddwl bod "mynediad" yn golygu dim ond mynediad cadair olwyn i adeilad neu leoliad. Yn wir, mae materion mynediad yn cynnwys:

Lleoliad

A yw'ch lleoliad yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus, mewn ardal sydd wedi'i goleuo'n dda, ac o fewn ardal y mae'ch grwpiau targed yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel o'i mewn? Os yw'ch prosiect yn anelu at fod yn gynhwysol, a yw'r lleoliad mewn ardal a fydd yn cael ei chydnabod yn un niwtral gan yr holl gymunedau?

Mynediad corfforol

A fydd pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu goetsis, neu'r rheini sy'n cael grisiau neu ddrysau trwm yn anodd yn gallu defnyddio'ch lleoliad?

Costau

A yw'ch grwpiau targed yn gallu fforddio defnyddio'ch gwasanaethau? A ydynt am ddim neu wedi'u prisio ar gyfradd fforddiadwy ar gyfer y bobl yr ydych chi'n ceisio'u denu?

Cyfathrebu

A oes gan eich grwpiau targed anghenion cyfathrebu penodol? A oes yn rhaid i chi ystyried gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol, darparu arwyddwr mewn digwyddiadau, cyflwyno cyhoeddiadau neu hysbysiadau mewn testun mwy, gweithio gyda thechnoleg negeseuon testun, ffôn symudol a'r rhyngrwyd gyda phobl ifanc? Gosod system ddolen sain ar gyfer defnyddwyr teclynnau clyw? A allwch chi ddefnyddio iaith seml ar gyfer pobl ag anawsterau darllen?

Amseru'ch gwasanaethau

A all pobl ddefnyddio'ch gwasanaethau neu fynychu gweithgareddau ar amser sy'n addas iddynt hwy?

A oes yn rhaid i chi gynllunio o amgylch gwyliau ysgol, gwyliau crefyddol y mae'ch grwpiau targed yn eu dathlu, neu gynnig rhai gweithgareddau y tu hwnt i oriau gwaith? A oes yn rhaid i chi gymryd egwyl er mwyn caniatáu ar gyfer gweddïau ar amserau amrywiol yn ystod y dydd?

Cyfrifoldebau gofalu

A oes unrhyw rai o'r bobl yr ydych chi'n eu targedu angen cefnogaeth gyda'u cyfrifoldebau gofalu, ar gyfer plant neu ar gyfer aelodau hŷn neu anabl y teulu? A oes yn rhaid i chi gynnig gofal plant neu lwfansau eistedd gyda phobl, darparu meithrinfa neu sefydlu cylchoedd eistedd fel bod pobl yn rhydd i ddod i'ch gweithgareddau? Os ydych chi'n gweithio gyda phobl ifanc, a oes unrhyw rai ohonynt yn ofalwyr ifanc?

Bwyd ac ymborth

A oes yn rhaid i chi ystyried gwahanol anghenion dietegol ymhlith eich grwpiau targed? Gallai hyn fod oherwydd gofynion crefyddol neu ddiwylliannol, ond fe allai fod hefyd er mwyn darparu ar gyfer llysieuwyr neu ymateb i anghenion iechyd.

Adran 2

Cyhoeddusrwydd a marchnata

Pa ffurfiau ar gyhoeddusrwydd a fydd yn cyrraedd eich grwpiau targed? Pa bapurau maent yn eu darllen? Pa orsafoedd radio maent yn gwrando arnynt? Lle maent yn mynd i gwrdd, i siop, i weddïo neu i ddefnyddio gwasanaethau'n barod? Pa ddelweddau sy'n gwneud iddynt deimlo'n gyffyrddus? Pe baent yn gweld eich taflenni neu'n dod i mewn i'ch adeilad, a fyddent yn gweld delweddau ac iaith a fyddai'n gwneud iddynt deimlo'n gartrefol?

Pobl

Pe bai pobl o'ch grwpiau targed yn dod i'ch eiddo neu'n dod i'ch digwyddiadau, a fyddent yn teimlo'n gartrefol ac yn gyffyrddus yn eu hamgylchiadau? A fyddent yn gweld pobl debyg i'w hunain, fel staff, gwirfoddolwyr neu ddefnyddwyr? A fyddent yn teimlo'n gyfforddus gyda'r gymysgedd o bobl yn y prosiect? A fyddent yn teimlo'n ddiogel yn datgelu gwybodaeth amdanynt eu hunain.

Cwestiynau allweddol cydraddoldeb:

- Beth allai atal pobl rhag defnyddio'ch gwasanaethau, a sut allwch chi gael gwared ar y pethau sy'n ei gwneud yn anodd iddynt?
- Sut y gallwch chi fynd y tu hwnt i anghenion eich defnyddwyr cyfredol?
- Sut allwch chi sicrhau bod yr holl bobl a allai elwa o'ch prosiect yn gwybod amdano?
- Sut allwch chi wneud i'ch holl grwpiau targed deimlo'n gartrefol a'u bod yn cael eu deall yn eich prosiect?
- Sut allwch chi ddangos mewn ffyrdd ymarferol eich bod yn brosiect sydd eisiau gweithio gyda phawb yn y gymuned?
- Sut allwch chi ddangos yn eich gwaith beunyddiol eich bod yn ymrwymedig i fodloni anghenion pobl ddifreintiedig yn eich cymuned?

Adran 2

Enghraifft: Canolfan leol i deuluoedd
Cam 3: Cyrraedd yr holl fuddiolwyr posibl a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect

Mater mynediad	Yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud	Beth arall fyddai'n helpu ein grwpiau targed?
Mynediad corfforol	Mynediad cadair olwyn i ystafelloedd cyfarfod, hyfforddi a chynghori llawr gwaelod.	Lifft i swyddfeydd ar y llawr cyntaf.
Materion lleoliad	Wedi'i leoli'n ganolog, yn agos at lwybrau bysiau.	Ystyried cynnig sesiynau mewn partneriaeth gyda grwpiau ieuenctid lleol yn eu lleoliadau.
Materion ariannol	Ffioedd wedi'u cymorthdalu ar gyfer pobl ar fudd-daliadau.	Trafod cyfraddau archebu grŵp ar gyfer gwibdeithiau.
Materion cyfathrebu	Taflen wybodaeth a phoster am wasanaethau'r ganolfan yn Saesneg.	Gwefan y ganolfan i deuluoedd, gyda chylchlythyr misol ynghyd â gwybodaeth am wasanaethau. Cynhyrchu fersiwn o daflen a phoster yn y brif iaith Asiaidd yn lleol.
Amseru'r gwasanaethau	Cyrsiau rhianta yn cael eu cynnal yn ystod y dydd a gyda'r nos.	Cynnig sesiynau 'tadau a phlant' ar Ddyddiau Sadwrn a Sul.
Cyfrifoldebau gofalu	Sesiynau chwarae wedi'u goruchwylio ar gyfer plant pobl sy'n defnyddio gweithgareddau'r ganolfan.	Annog aelodau'r ganolfan i sefydlu cylchoedd eistedd i'r naill a'r llall.
Materion bwyd ac ymborth	Ymdrin â maeth y teulu mewn cyrsiau rhianta.	Integreiddio bwyd a sgiliau coginio i mewn i sesiynau 'tadau a'u plant'.
Cyhoeddusrwydd a marchnata	Dosbarthu taflenni gwybodaeth am y prosiect i gylchoedd chwarae a phrosiectau cymunedol eraill.	Annog y radio lleol i gynnal eitemau newyddion am ddigwyddiadau'r ganolfan.
Materion y bobl	Mae 80 y cant o'r defnyddwyr yn fenywod. Mae 100 y cant o'r gwirfoddolwyr yn fenywod.	Mae'r gymysgedd hiliol yn cynrychioli'r ardal, ac eithrio cymunedau Asiaidd. Sefydlu cysylltiadau gyda phrosiect cymunedol Asiaidd er mwyn ein helpu i adnabod sut y gallwn gynnwys rhagor o rieni o gymunedau Asiaidd yn ein gwaith.

Adran 2

Bydd rhoi amser i feddwl drwy eich gwaith fel hyn yn eich galluogi i:

- Feddwl yn fanwl am bwy sydd angen gallu defnyddio'ch prosiect.
- Meddwl am anghenion pobl a grwpiau nad ydynt yn defnyddio'ch gwasanaethau ar hyn o bryd.
- Adnabod pethau ymarferol yr ydych chi eisoes yn eu gwneud sy'n helpu eich grwpiau targed i wybod am eich gwaith a defnyddio'ch gwasanaethau.
- Adnabod pethau ymarferol y gallech chi eu gwneud er mwyn gwneud pethau'n haws i'ch grwpiau targed wybod am eich gwaith a defnyddio'ch gwasanaethau.
- Mynnu enghreifftiau go iawn y gallwch chi eu rhoi yn eich cais am grant, er mwyn i'r Gronfa Loteri Fawr weld eich bod yn meddwl am y peth go iawn, ac yn ymrwymedig i arferion cydraddoldeb da.

Ni fydd rhai newidiadau yn costio unrhyw arian ychwanegol, er enghraifft, sefydlu cysylltiadau gyda gorsafoedd radio lleol er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd penodol neu recriwtio gwirfoddolwyr o ystod ehangach o gefndiroedd. Bydd rhai newidiadau yn gofyn am arian, er enghraifft, gosod lifft, cyfieithu gwybodaeth neu wneud newidiadau i wefan. Gan hynny, dylech feddwl o ble y gallwch gynhyrchu'r arian y bydd ei angen arnoch, er enghraifft, ceisiadau grant; digwyddiadau codi arian, nawdd gan gwmnïau lleol ayyb. Ni fydd y Gronfa Loteri Fawr yn ariannu prosiect sy'n ymwneud â chynyddu mynediad i'r anabl yn unig, ond os yw'ch prosiect yn cynnwys y costau hyn fel rhan fach o brosiect ehangach, yna bydd y costau hyn yn cael eu hystyried.

Os dymunwch gyflogi person anabl, mae'n bosibl y cewch arian o gynllun Mynediad at Waith y Llywodraeth, sydd wedi'i leoli mewn canolfannau gwaith lleol.

Mae'n syniad da trin y rhestr hon fel rhywbeth sy'n rhaid i chi ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd.

Cofiwch!

- Mae gwneud eich prosiect yn hygyrch yn golygu mwy na sicrhau mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn i'r adeilad.
- Nid yw'n ddigon dweud 'mae'n prosiect yn agored i bawb' yn unig.
- Mae'n bosibl na fyddwch yn gallu gwneud yr holl newidiadau yr ydych chi wedi'u hadnabod ar unwaith. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi benderfynu pa un sydd bwysicaf ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.
- Mae llawer o addasiadau yn ymwneud â gwneud pethau ychydig yn wahanol – peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd gwneud newidiadau yn costio llawer o arian.
- Yn eich cais i'r Gronfa Loteri Fawr cofiwch gynnwys enghreifftiau am sut y gallwch wneud eich prosiect neu weithgareddau yn agored i ddefnyddwyr posibl.
- Bydd rhai o'r materion hyn yn fwy perthnasol i'ch prosiect nac eraill a hwyrach na fydd rhai yn berthnasol o gwbl.

Adran 2

Tynnir yr astudiaeth achos a ganlyn o gais diweddar i un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'n dangos sefydliad a ystyriodd yn ddwys sut y gallai ymestyn at bobl a allai ei chael hi'n anodd defnyddio'u gwasanaethau. Sylweddolwyd bod angen cefnogaeth ar ofalwyr, ond y byddent yn wynebu anawsterau oherwydd amseru'r gwasanaethau, problemau trafnidiaeth, materion diwylliannol, cyfrifoldebau gofalu, ac oedran. Roedd y prosiect a gynlluniwyd ganddynt yn mynd i'r afael â'r holl faterion hyn, gan wneud y gwasanaeth mor hygyrch â phosibl i bawb a oedd yn gofalu am rywun oedd â salwch marwol.

Astudiaeth achos arfer da

Creu gwasanaeth y gall pawb ei ddefnyddio

Adnabu hosbis a oedd yn gwasanaethu sir yn ne Lloegr er ei fod yn darparu gofal o'r ansawdd uchaf i'w gleifion, ychydig iawn o sylw yr oedd yn ei roi i'w gofalwyr. Ar ôl ymgynghori, fe wnaeth gais i'r Gronfa Loteri Fawr i ddatblygu prosiect newydd yn cyflwyno pecyn llawn cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i ofalwyr. Byddai hyn yn cynnwys gweithdai yn darparu cyngor ar godi a symud, budd-daliadau lles, cynnal eu hiechyd eu hunain a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

O fewn y rhaglen gyffredinol hon, adnabu'r hosbis nifer o gamau ymarferol y gallai eu cymryd er mwyn cyrraedd y rheini a oedd angen cefnogaeth fwyaf:

- Byddai trafnidiaeth yn cael ei darparu i'r rhieni oedd ag anawsterau symudedd neu a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig ynysig y dalgylch, drwy ymestyn ar y cynllun gyrwyr gwirfoddol cyfredol.
- Byddai gwasanaeth eistedd gan wirfoddolwyr yn cael ei greu, er mwyn rhyddhau gofalwyr er mwyn dod i'r sesiynau.
- Byddai gwasanaeth cefnogaeth ar y ffôn yn cael ei sefydlu, er mwyn i bobl na allent ddod i'r sesiynau gael arweiniad proffesiynol a siarad â gofalwyr eraill.
- Roedd yr hosbis eisoes yn darparu taflenni gwybodaeth yn Eidaleg, yr iaith gymunedol fwyaf cyffredin yn lleol. Yr oeddynt yn awr yn cynllunio ymestyn y gefnogaeth iaith drwy sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ofalwyr mewn ieithoedd eraill gan ddefnyddio rhestr o gyfieithwyr cymeradwy yn eu gwaith gyda gofalwyr.
- Anelodd y prosiect at ehangu rhaglen fywiog cyfredol yr hosbis i wirfoddolwyr er mwyn targedu gwirfoddolwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig bach yn yr ardal.
- Fe wnaethant gynllunio partneriaeth newydd gyda phrosiect gofalwyr ifanc lleol, er mwyn adnabod ac ymateb i anghenion gofalwyr ifanc.
- Byddai'r holl weithgareddau ar gyfer gofalwyr am ddim, a oedd yn golygu na fyddai'n rhaid i unrhyw un golli allan am resymau ariannol.

Adran 2

Cam 4: archwilio materion rheoli a pholisi

Ar y pwynt hwn, dylai fod gennych syniad clir am yr angen y mae eich prosiect yn ceisio mynd i'r afael â hi. Dylai fod gennych syniad da ynghylch pa fath o weithgareddau a fydd yn gwneud gwahaniaeth, a sut y gallwch sicrhau bod yr holl bobl a allai elwa o'ch prosiect yn gwybod amdano, yn gallu gwneud defnydd da ohono ac yn cael eu croesawu a'u deall yno.

Y mater cydraddoldeb olaf sy'n rhaid i chi feddwl amdano yw sut y mae'ch prosiect yn cael ei reoli, a'r gweithdrefnau sydd gennych yn eu lle er mwyn sicrhau eich bod yn trin pobl yn deg.

Sicrhau bod eich pwyllgor rheoli neu fwrdd ymddiriedolwyr yn adlewyrchu'r gymuned

Yn ychwanegol at sicrhau bod gan eich pwyllgor rheoli'r cytbwysedd cywir o sgiliau rhaid i chi ystyried a yw ei aelodaeth yn adlewyrchu'r mathau o bobl yr ydych chi'n ceisio eu gwasanaethu. Er enghraifft, beth yw cyfran y dynion a'r menywod, gwahanol gymunedau ethnig yn eich cymuned, gwahanol oedrannau a phobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl?

Bydd cynnwys y bobl yr ydych chi'n ceisio eu gwasanaethu wrth reoli eich sefydliad neu brosiect o help i chi ddenu'r grwpiau hynny o fewn y gymuned i ddefnyddio'ch gwasanaethau. Mae'n galluogi i'w barnau gael eu clywed a rhoi'r cyfle iddynt fynegi eu barn ar sut mae gwasanaethau a pholisïau yn cael eu datblygu. Maent yn fwy tebygol o'ch gweld chi fel sefydliad sy'n deall eu hanghenion, eu gwerthoedd a'u cyfraniad.

Sylweddolwn y gall hi fod yn anodd denu pobl o grwpiau penodol ar bwyllgorau.

Adran 2

Tynnir yr astudiaeth achos a ganlyn o gais diweddar i un o raglenni'r Gronfa Loteri Fawr. Roedd yn dangos sefydliad a oedd wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ei bwyllgor rheoli yn gynrychiadol o'r gymuned mae'n ei gwasanaethu.

Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod cynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig lleol, ond hefyd bod gan y pwyllgor gymysgedd o weithwyr proffesiynol a gweithwyr nad ydynt yn broffesiynol, a phrofiad yn y gymuned ochr yn ochr â phrofiad mewn gwasanaethau iechyd.

Rhoddodd hyn bwll anferth o brofiad i'r sefydliad dynnu ohono, ynghyd â hygrededd gyda'u defnyddwyr a chyda'r gweithwyr proffesiynol yr oeddynt yn ceisio'u dylanwadu.

Astudiaeth achos arfer da

Rheoli ar gyfer cydraddoldeb

Gweithiodd ganolfan iechyd cymunedol yng Nglasgow mewn partneriaeth gyda'r bwrdd iechyd lleol a'r ymddiriedolaeth gofal cynradd er mwyn cynnal clinig iechyd cymunedol ar gyfer pobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd ei gwaith yn ymwneud â hyrwyddo iechyd, cyngor a thriniaeth mewn amgylchedd sy'n sensitif yn ddiwylliannol.

Fe wnaeth y ganolfan gais i'r Gronfa Loteri Fawr i ariannu prosiect newydd a fyddai'n caniatáu i bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig gymryd rhan wrth ddatblygu polisi iechyd lleol, ac i sicrhau bod gwasanaethau iechyd lleol yn cael eu datblygu mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu anghenion cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Roedd pwyllgor rheoli'r ganolfan iechyd yn amlwg yn adlewyrchu'r gymuned leol yr oedd y prosiect yn ei thargedu. Daeth yr aelodau o ystod o gymunedau lleol, gan gynnwys pobl o darddiad Arab, Bangladesh, Indiaid a Pacistan. Roedd eu harbenigedd yn amrywio o actifyddion cymunedol lleol i weithwyr iechyd proffesiynol, ac ar draws y sectorau cymunedol, gwirfoddol a statudol. Gosododd hyn hwy mewn sefyllfa gref i gyflwyno ar y berthynas, a hynny o fewn y gymuned a chyda'r gwasanaethau statudol, a fyddai'n gwneud y prosiect yn llwyddiant.

Yn rhan o'r prosiect yr ymgeisiwyd amdano oedd prosiect iechyd i ddynion o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, sef un o'r grwpiau anoddaf i ymgysylltu â hwy ar faterion iechyd. Sefydlodd y prosiect grŵp llywio ar wahân ar gyfer y prosiect hwn, eto yn tynnu ar y cymunedau a oedd yn cael eu targedu. Ynghyd â rheoli aelod o staff yn gweithio ar gynyddu ymglymiad mewn polisi iechyd gan ddynion o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, rhoddwyd y dasg i'r grŵp llywio ddatblygu clinig iechyd newydd ar gyfer dynion o'r gymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y ganolfan.

Athroniaeth y ganolfan oedd sicrhau y gwrandawyd ar farnau'r holl gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn lleol, a bod eu barnau yn cael eu rhoi ar waith wrth gyflwyno polisïau a gwasanaethau iechyd lleol. Wrth integreiddio'r egwyddorion hyn i mewn i strwythurau rheoli'r ganolfan ei hun, darparwyd sylfaen gref ar gyfer dylanwadu ar eraill.

Adran 2

A allwch chi roi hynny ar bapur? Eich polisi cyfle cyfartal

Yn awr yw'r amser i wirio bod yr holl faterion arfer da yr ydych chi wedi'u hystyried yn cael eu cynnwys ym mholisi cyfle cyfartal eich sefydliad. Mae hon yn ddogfen ffurfiol sy'n:

- ddatganiad cyhoeddus o ymrwymiad eich sefydliad i atal gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a thrin pobl yn deg
- crynodeb o'r ffyrdd ymarferol y byddwch yn rhoi cyfle cyfartal ar waith yn y ffordd y byddwch yn cyflogi pobl, cyflwyno gwasanaethau a rheoli eich sefydliad.

Bydd y Gronfa Loteri Fawr eisiau gwybod bod gennych bolisi cyfle cyfartal, a'r meysydd y mae'n ymdrin â hwy.

Camgymeriad cyffredin y mae sefydliadau'n ei wneud yw meddwl y gallant fabwysiadu polisi "oddi ar y silff" neu gopïo polisi sefydliad arall. Y problemau gyda'r ymdriniaeth hon yw:

- Nid yw wedi'i theilwra i'ch sefydliad ac fe allai eich ymrwymo chi i wneud pethau nad ydynt yn briodol ar gyfer maint eich sefydliad neu'r math o sefydliad.
- Bydd eich sefydliad wedi colli allan ar y cyfle i feddwl a siarad ynghylch ei arferion cydraddoldeb yn ystod y broses o ysgrifennu eich polisi cyfle cyfartal. Ni fydd unrhyw un yn y sefydliad yn credu eu bod yn 'berchen' arno, a bydd eu hymrwymiad i'r polisi yn wan.

Mae llawer o help ar gael i sefydliadau er mwyn eu helpu i wella yn y maes hwn. Mae'n bosibl y bydd y sefydliadau a ganlyn yn ddefnyddiol:

The Governance Hub
Desg gymorth: 0800 652 4886
www.governancehub.org.uk

NCVO-Lloegr
Desg Gymorth Rhadffôn: 0800 2798 798
www.ncvo-vol.org.uk

SCVO-Yr Alban
Rhadffôn: 0800 169 0022
www.scvo.org.uk

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ffôn: 029 2043 1700
www.wcva.org.uk

NICVA-Gogledd Iwerddon
Ffôn: 028 9087 7777
www.nicva.org.uk

Cofiwch!

- Bydd pwyllgor rheoli amrywiol yn cyfoethogi eich sefydliad. Bydd yn meithrin cysylltiadau â phob rhan o'ch cymuned ac yn dod â syniadau a safbwyntiau newydd.
- Mae'ch polisi cyfle cyfartal yn ddatganiad pwysig o'ch ymrwymiad. Peidiwch â mabwysiadu polisi rhywun arall: gwnewch e'n berthnasol i'ch sefydliad a rhowch ef ar waith.

Adran 3

Nawr eich bod wedi ennill y grant: cydraddoldeb ar waith

1. Y Gronfa Loteri Fawr: sut y mae'r Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i'ch sefydliad weithredu cydraddoldeb ar ôl i chi dderbyn grant

Llongyfarchiadau! Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi dyfarnu grant i'ch sefydliad.

Gan ddibynnau ar ba raglen yr ydych chi wedi ymgeisio amdani, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod neu seminar gydag aelod o staff grantiau'r Gronfa Loteri Fawr i drafod y canlyniadau a'r cerrig milltir yr ydych chi wedi'u hamlinellu ar gyfer eich prosiect. Os felly, dylech fod yn barod i siarad am eich cynlluniau er mwyn ymestyn allan at grwpiau difreintiedig, yr anghenion sydd gan eich grwpiau targed, a'r cynlluniau sydd gennych er mwyn gwneud eich prosiect mor agored â phosibl i bawb a allai elwa ohono.

Bydd pob sefydliad a fydd yn derbyn grant, pa un a fyddant yn cwrdd â staff y Gronfa Loteri Fawr ai peidio, yn derbyn amodau safonol grantiau'r Gronfa Loteri Fawr i'w llofnodi. Mae'r amodau safonol hyn yn cynnwys rhai sy'n perthyn i faterion cydraddoldeb. Ar lefel gyffredinol, gofynnir i'ch sefydliad gytuno:

Yn ystod cyfnod y grant y byddwn yn gweithredu mewn modd teg ac agored heb wahaniaethu ar sail hil, crefydd, oedran nac anabledd, ac yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol.

Cofiwch y bydd gan eich sefydliad nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol yn perthyn i gyflogaeth a darparu gwasanaeth. Mae'r gyfraith yn newid yn gyson ac mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth yw'r diweddaraf. Mae'r adran ar 'Y gyfraith a chydraddoldeb' yn rhoi trosolwg byr i chi o bob un o'r prif ddeddfwriaethau sy'n rhaid i'ch sefydliad fod yn ymwybodol ohonynt.

Hefyd bydd amodau penodol sy'n ymrwymo eich sefydliad i:

- gael polisi cyfle cyfartal mewn grym drwy'r amser
- monitro cynnydd y prosiect a darparu gwybodaeth am eich gweithgareddau a'ch buddiolwyr
- gael polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth cywir mewn grym drwy'r amser
- talu sylw i gydraddoldeb yn ystod y broses recriwtio a dethol a'r angen i sicrhau cytbwysedd priodol y staff yn eich sefydliad
- hysbysebu unrhyw swyddi a ariannir gan y grant yn allanol.

Nod yr adrannau a ganlyn yw'ch helpu drwy'r pethau sylfaenol, er mwyn i chi fod yn siŵr eich bod yn bodloni amodau eich grant.

2. Arfer da recriwtio

Os yw'r grant a roddwyd i chi yn cynnwys arian i ariannu cyflogau swyddi **newydd**, bydd y Gronfa Loteri Fawr yn disgwyl i chi fynd drwy broses recriwtio teg ac agored bob amser. Mae'r rheol hon yn berthnasol hyd yn oed os yw'ch sefydliad yn wynebu sefyllfa colli gwaith. O dan y ddeddfwriaeth colli gwaith rhaid i'r cyflogwr "ystyried" a oes cyflogaeth amgen addas yn bodoli. Ni ellir "ystyried" swyddi a ariannir gan y Gronfa Loteri Fawr yn ddewisiadau amgen addas gan eu bod yn amodol ar gael eu recriwtio'n agored.

Mae arfer da recriwtio a dethol yn cynnwys bodloni'r safonau a ganlyn:

- Dylid cael disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd a ariannir gan y grant, sy'n canolbwyntio ar y sgiliau a'r profiadau sy'n ofynnol i wneud y swydd.
- Os credwch fod swydd yn gofyn am ofyniad neu gymhwyster galwedigaethol gwirioneddol dylech gynnig tystiolaeth o hyn. Bydd hyn yn cynnwys cyngor cyfreithiol proffesiynol ar gyflogaeth fod y gofyn neu'r cymwyster yn wir.
- Dylai'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r broses recriwtio (disgrifiad swydd, hysbyseb, ffurflen gais ayyb) fod yn rhydd rhag unrhyw iaith sy'n gwahaniaethu yn erbyn unigolion neu grwpiau penodol.
- Dylid hysbysebu eich swydd y tu allan i'ch sefydliad mewn ffyrdd a fydd yn cyrraedd y bobl a allai

ymgeisio, gan gynnwys grwpiau difreintiedig. Fel arfer byddai hyn yn golygu rhoi hysbyseb mewn papurau newydd lleol neu genedlaethol, oni bai bod unrhyw resymau penodol dros wneud fel arall.

- Dylid asesu ymgeiswyr am y swydd yn erbyn y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol er mwyn ymgymryd â'r tasgau yn y disgrifiad swydd, ac nid ar unrhyw faterion eraill.
- Dylai'r panel cyfweld gynrychioli'n fras y bobl yr ydych chi'n ceisio'u cyrraedd. Os yn bosibl, dylent fod wedi derbyn hyfforddiant mewn recriwtio cyfle cyfartal.
- Dylech gadw cofnodion o'ch proses llunio rhestr fer a chyfweliadau, er mwyn i chi allu cyfiawnhau yn glir y rheswm dros ddewis yr ymgeisydd penodol. Rhaid i chi fod yn gallu dweud sut maent yn bodloni'r sgiliau a'r profiad gofynnol ar gyfer y swydd.

3. Cadwch gofnod o'r hyn yr ydych yn ei wneud: monitro ar gyfer cydraddoldeb

Weithiau mae sefydliadau yn cwyno bod monitro ac adrodd yn niwsans ac y byddai'n well treulio amser yn 'bwrw ymlaen gyda'r gwaith'. Serch hynny, bydd monitro da yn eich helpu i wella eich gweithgareddau a rheoli eich prosiect i safon uchel ynghyd â golygu y gallwch adrodd yn ôl wrth y Gronfa Loteri Fawr am gynnydd eich gwaith.

Bydd monitro da yn gallu eich helpu i ddeall yr hyn sy'n mynd yn dda yn eich prosiect a hefyd y meysydd lle gall y cynnydd fod yn araf. Bydd hyn o gymorth i chi ganolbwyntio'r sylw ar unrhyw broblemau yn y gwaith o gyfnod cynnar a chymryd camau i'w goresgyn. Bydd hyn yn cadw'ch sefydliad ar y trywydd cywir er mwyn cyflwyno prosiect o'r ansawdd uchaf i'r bobl yr ydych chi'n eu gwasanaethu.

Bydd monitro yn eich helpu i ateb cwestiwn cydraddoldeb allweddol:

A yw pawb a allai elwa o'ch prosiect yn ei ddefnyddio?

Mae'n bosibl bod eich prosiect yn defnyddio **ymdriniaeth gynhwysol** ac yn anelu at gynnig ei weithgareddau neu ei wasanaethau i bawb yn y gymuned a allai elwa ohonynt. Bydd monitro yn eich helpu i adnabod a oes unrhyw "flychau" amlwg o ran pwy sy'n defnyddio'ch gwasanaeth. Er mwyn gwneud hyn rhaid i chi gymharu'r ffigurau yr ydych chi'n eu cael wrth fonitro gyda'r hyn yr ydych chi'n ei wybod am gyfansoddiad y boblogaeth yr ydych chi'n ei gwasanaethu (dylech fod wedi casglu'r wybodaeth ystadegol hon yn ystod cyfnod cynllunio'ch prosiect).

Mae'n bosibl y gwelwch fod popeth yn iawn a bod lledaeniad eich defnyddwyr yn gynrychiadol o'r grwpiau yn eich cymuned a'r patrwm angen. Fel arall, mae'n bosibl y byddwch yn gweld bod grŵp penodol ar goll y dylech chi fod yn ei gyrraedd. Hwyrach y bydd hyn yn tynnu sylw at fater cydraddoldeb y mae'n rhaid i'ch sefydliad dalu sylw iddo.

Os yw'ch prosiect yn cymryd ymdriniaeth **wedi'i thargedu**, bydd monitro o gymorth i chi wirio eich bod yn talu digon o sylw i ffurfiau eraill ar anfantais y gallai pobl fod yn eu profi. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch yn rhedeg prosiect yn benodol ar gyfer pobl hŷn sy'n ynysig yn gymdeithasol. Ond a ydych chi'n

Cofiwch!

Mae gan ACAS swyddfeydd rhanbarthol ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban a gallant ddarparu cyngor i gyflogwyr ar ystod eang o faterion cyflogaeth www.acas.org.uk. Maent hefyd yn cynnal llinell gymorth Equality Direct ar gyfer cyflogwyr bach Ffôn: 0845 600 3444.

Yng Ngogledd Iwerddon gallwch gysylltu â'r Labour Relations Agency am gyngor tebyg yn www.lra.org.uk, Ffôn: 028 9032 1442.

Adran 3

cyrraedd y rhieni sy'n anabl, neu'r rhieni ar incwm isel o fewn eich grŵp targed?

Os nad ydych chi'n cyrraedd pobl yn eich cymuned a allai elwa o'ch prosiect, bydd monitro yn gweithredu fel system rybuddio gynnar. Hwyrach y bydd yn rhaid i chi ymgynghori eto am eu hanghenion, neu wneud newidiadau i'ch gwaith i'w galluogi i ddefnyddio'ch gwasanaethau.

Cofiwch y gall demograffig lleol newid dros amser. Gall monitro eich helpu i adnabod a oes defnyddwyr newydd posibl nad ydych chi wedi bod yn ymwybodol ohonynt o'r blaen.

Pa wybodaeth fonitro y bydd y Gronfa Loteri Fawr yn gofyn amdani?

Bydd yr union ofynion monitro yn amrywio o un rhaglen i'r llall ac yn unol â maint eich grant. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol iawn bod y wybodaeth y mae'n gofyn amdani mewn cyfrannedd â swm yr arian a roddir i chi. Felly, po fwyaf y grant, y mwyaf y bydd y gofynion adrodd.

Pan fyddwch yn derbyn eich grant, bydd staff y Gronfa Loteri Fawr hefyd yn dweud wrthych ba mor aml maent yn disgwyl i chi adrodd ar gynnydd eich prosiect a pha wybodaeth y maent yn disgwyl ei derbyn oddi wrthych chi (fe'u gelwir weithiau yn 'gofynion monitro').

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gofyn am y wybodaeth hon oherwydd rhaid iddi fod yn siŵr bod ei grantiau yn cael eu gwario'n dda a'u bod yn bodloni ei nod o gefnogi prosiectau sy'n cynnig gwelliannau gwirioneddol i gymunedau a bywydau pobl sydd mewn angen mwyaf.

Yn gyffredinol mae dau fath o fonitro y gallai'r Gronfa Loteri Fawr ofyn i chi eu gwneud:

Monitro'r prosiect

Fel arfer digwydd hyn unwaith y flwyddyn. Bydd staff y Gronfa Loteri Fawr yn gofyn i chi adrodd yn ôl ar y mathau o bobl sydd wedi elwa o'ch prosiect ac ar eich cynnydd tuag at y cerrig milltir a amlinellir yn eich cais.

Monitro cydraddoldeb

Bydd gofyn i brosiectau sy'n derbyn grant y Gronfa Loteri Fawr adrodd yn ôl yn erbyn rhai categorïau cydraddoldeb safonol, ar ddiwedd cyfnod y grant. Defnyddia'r Gronfa Loteri Fawr y wybodaeth hon er mwyn beirniadu pa mor bell y mae ei rhaglenni yn cyrraedd grwpiau penodol o fewn cymdeithas. Ni ddefnyddir y wybodaeth hon i feirniadu eich sefydliad.

Am ragor o gymorth gyda monitro a gwerthuso ac am syniadau am sut i wneud monitro yn offeryn defnyddiol i chi, cysylltwch â:
Gwasanaethau Gwerthuso Elusennau –
Ffôn: 020 7713 5722 neu ewch i'w gwefan:
www.ces-vol.org.uk
Mae hwn yn wasanaeth ledled y DU.

Cofiwch!

Nid yw'n ddigon casglu'r rhifau yn unig. Rhaid i chi edrych arnynt mewn perthynas â:

- nodau eich prosiect a'r canlyniadau y dymunwch eu cyflawni, a
- chyfansoddiad eich cymuned.

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth fonitro i'ch helpu i wella eich gwaith, nid er mwyn adrodd wrth y Gronfa Loteri Fawr yn unig

Mae rhagor o gymorth ar ddeall sut i fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at eich canlyniadau ar gael yng nghyhoeddiad y Gronfa Loteri Fawr 'Esbonio'r gwahaniaeth a ddaw yn sgil eich prosiect' sydd ar gael ar wefan y Gronfa Loteri Fawr www.cronfaloterifawr.org.uk

Cefnogaeth pellach A

Y gyfraith a chydraddoldeb

Mae'r adran hon yn rhoi amlinelliad byr o bob un o'r prif gyfreithiau cydraddoldeb sydd angen i'ch sefydliad fod yn ymwybodol ohonynt. Ymhob achos, ceir crynodeb o'r hyn a ddywed y gyfraith ac mewn rhai achosion nodir hefyd y goblygiadau i'r sefydliadau gwirfoddol. Cofiwch fod y gyfraith yn newid yn aml: gwnaethpwyd pob ymdrech i sicrhau fod y wybodaeth hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi, Gorffennaf 2008.

Nid yw'r adran hon yn arweiniad cyflawn i'r gyfraith. Dylech geisio cyngor arbenigol ar gyfer unrhyw faterion neu broblemau cyfreithiol penodol. Ceir manylion asiantaethau sy'n medru rhoi mwy o wybodaeth neu gyngor ymhob adran.

Mae rhai termau a chysyniadau cyfreithiol yn gyson ar draws y rhan fwyaf o gyfreithiau cydraddoldeb: mae'r rhai pwysicaf yn dilyn.

Camwahaniaethu uniongyrchol – mae hyn yn golygu trin un person yn llai ffafriol nag un arall cyfatebol ar sail oedran, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol. Y driniaeth lai ffafriol ei hun sy'n cyfri; mae bwriad y person sy'n gwahaniaethu yn amherthnasol. Gall camwahaniaethu uniongyrchol ddigwydd pan fo cyflogwr yn penodi dyn yn hytrach na menyw sy'n fwy cymwys, neu pan fo prosiect ar gyfer pobl ifanc, yn sgil digwyddiad rhwng bechgyn o wahanol grwpiau ethnig, yn gwahardd y bechgyn du yn unig.

Camwahaniaethu anuniongyrchol – mae hyn yn golygu gosod amod neu arfer, maen prawf, rheol ffurfiol neu anffurfiol, sydd yn ymddangos yn 'niwtral' ond sy'n cael yr effaith, boed yn fwriadol ai peidio, o osod rhai grwpiau neu unigolion o oedran, hil, rhyw, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol arbennig o dan anfantais i gymharu ag eraill, os na ellir cyfiawnhau'r amod, arfer neu'r maen prawf fel modd addas o gyflawni nod dilys. Gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd pan fo sefydliad yn bwriadu cyfyngu prosiect i bobl sydd wedi byw mewn ardal benodol ers o leiaf bum mlynedd, sy'n debygol o anfanteisio grwpiau sydd wedi ymgartrefi yno'n ddiweddarach, yn cynnwys grŵp o ffoaduriaid o Somalia a grŵp o deuluoedd o Wlad Pwyl. Gallai hefyd ddigwydd pan fo cyflogwr yn mynnu pum mlynedd o brofiad ar gyfer swydd weinyddol syml, sydd yn debygol o anfanteisio pobl ifainc a fyddai fel arall yn medru cyflawni'r swydd.

Erledigaeth – mae hyn yn golygu trin person yn llai ffafriol oherwydd eu bod wedi gwneud cwyn am gamwahaniaethu anghyfreithlon, neu eu bod wedi cefnogi neu roi tystiolaeth ynglŷn â chwyn am gamwahaniaethu, neu bod tybiaeth eu bod wedi gwneud neu yn bwriadu gwneud hynny. Gall erledigaeth ddigwydd pan fo cyflogwr yn eithrio gweithiwr rhag derbyn rhai buddiannau, yn sgil y ffaith iddo gwyno fod cydweithiwr yn cael ei aflonyddu oherwydd ei fod yn hoyw.

Aflonyddu – mae hyn yn golygu darostwng person arall i ymddygiad digroeso yn gysylltiedig â hil, rhyw, ailbennu rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred, sydd â'r bwriad neu'r effaith o amharu ar eu hurddas neu greu iddynt amgylchedd sydd yn elyniaethus, yn frawychus, yn fychanol neu mewn unrhyw ffordd yn creu gofid. Gall fod yn fwlio bwriadol amlwg, neu graffiti neu yn drais corfforol neu rywiol, ond gall hefyd gynnwys llysenwau, jôcs neu ymddygiad arall digroeso nad yw o reidrwydd yn fwriadol elyniaethus. Gall fod yn ddigwyddiad unigol neu yn barhaus. Gall aflonyddu ddigwydd pan wneir sylwadau hiliol i ddynes wen gan wybod fod ganddi blentyn o dras gymysg, neu pan fydd dyn Mwslimaidd yn dioddef cwestiynau amherthnasol am ei gred.

Atebolrwydd cyflogwyr – mae cyfreithiau cydraddoldeb yn gwneud cyflogwyr yn atebol am weithredoedd o gamwahaniaethu anghyfreithlon neu aflonyddu gan eu gweithwyr pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu cyflogaeth, boed y cyflogwr yn ymwybodol / cymeradwyo ai peidio, oni all y cyflogwyr ddangos iddynt gymryd camau ymarferol rhesymol i rwystro'r camwahaniaethu neu aflonyddu.

Y gyfraith a chydraddoldeb

Gweithredu cadarnhaol – mae'r cyfreithiau cydraddoldeb yn annog cyflogwyr i weithredu'n gadarnhaol i'w cynorthwyo i recriwtio, cadw a dyrchafu pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Bwriad gweithredu cadarnhaol yw gwrthweithio effeithiau camwahaniaethu yn y gorffennol a sicrhau fod pobl o grwpiau a neilltuwyd yn y gorffennol yn medru cystadlu ar delerau cyfartal ag ymgeiswyr eraill. Nid yw'n golygu triniaeth lai ffafriol i bobl eraill.

Mae enghreifftiau o weithredu cadarnhaol yn cynnwys:

- annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol am swyddi a dyrchafiadau
- targedu hysbysebion i gyrraedd at grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- hybu cyfleoedd cyflogaeth mewn ffeiriau-swyddi, diwrnodau agored a digwyddiadau eraill sy'n debygol o gael eu mynychu gan aelodau grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- cynnig hyfforddiant ar gyfer gwaith penodol i aelodau grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ymhlith pobl sy'n gwneud y gwaith hwnnw.

Nid yw gweithredu cadarnhaol wedi ei gyfyngu i fesurau yn ymwneud â chyflogaeth. Gall darparwyr gwasanaethau gymryd camau i gwrdd ag anghenion arbennig pobl am addysg, hyfforddiant neu les ar sail eu hil, ethnigrwydd, cenedl, gwreiddiau cenedlaethol, crefydd neu gredoau neu gyfeiriadedd rhywiol. Gallai hyn gynnwys cynnig dosbarthiadau Saesneg i fenywod mewn cymunedau o fewnfudwyr fel y byddant yn fwy abl i gael mynediad i wasanaethau lles lleol, neu ddarparu clinigau cyn-geni symudol fyddai'n gallu ymweld â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr lle mae cyfraddau marwolaeth babanod yn anghymesur o uchel.

Mae gweithredu cadarnhaol neu driniaeth ffafriol o blaid pobl anabl bob amser yn gyfreithlon.

Anghenion galwedigaethol gwirioneddol – pan fo natur swydd neu'r cyd-destun y gweithredir ynddi yn golygu bod perthyn i hil, rhyw, crefydd neu gred, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol arbennig yn angen gwirioneddol ar gyfer y swydd honno, gall cyflogwr wahaniaethu ar sail o'r fath wrth recriwtio, dewis, dyrchafu ac/ neu ddiswyddo, cyhyd â bod yr angen yn fodd addas o gyflawni nod teg. Gallai bod yn fenyw Asiaidd fod yn angen galwedigaethol gwirioneddol ar gyfer cwnselydd mewn lloches ar gyfer menywod Asiaidd sy'n dioddef trais yn y cartref, ond ni fyddai bod yn fenyw Asiaidd fel rheol yn angen galwedigaethol gwirioneddol ar gyfer swyddog cyllid y lloches.

Cyfrifoldebau cydraddoldeb awdurdodau cyhoeddus – Mae deddfwriaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban bellach yn rhoi cyfrifoldeb ar gyrff cyhoeddus, wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau, i gael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw, hil ac anabledd ac i fod yn weithgar yn hybu cydraddoldeb rhywedd, hil ac anabledd. Gall hyn fod yn wir ar gyfer sefydliadau preifat a gwirfoddol os ydynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft dan gytundeb gydag awdurdod lleol. Mae'n rhaid i'r prif awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau cydraddoldeb, asesu a monitro effaith eu polisïau a'u harferion. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r cyfrifoldeb a osodir gan Ddeddf Gogledd Iwerddon (Adran 75) yn mynnu fod cyrff cyhoeddus yn hyrwyddo cydraddoldeb ar draws naw o ddosbarthiadau cydraddoldeb.

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
RHYWEDD	**Deddf Cyflog Cyfartal 1970** **Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 / Gorchymyn Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Gogledd Iwerddon) 1976 (fel y'i diwygiwyd)** **Deddf Cydnabod Rhyw 2004**	Mae'r Ddeddf yn rhoi i unigolyn yr hawl i'r un tâl a buddiannau cytundebol â pherson o'r rhyw arall yn yr un gyflogaeth, pan fo'r dyn a'r fenyw yn gwneud: ● gwaith tebyg neu ● gwaith sydd wedi ei gysylltu'n gyfwerth mewn astudiaeth gwerthusiad swydd neu ● gwaith y gellir ei brofi i fod o werth cyfartal. **Gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw** Mae'r Ddeddf/Gorchymyn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu unrhyw un ar sail eu rhyw, beichiogrwydd neu absenoldeb mamolaeth, ailbenniad rhywedd neu statws priodasol (partneriaeth sifil) mewn cyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol ac addysg bellach ac uwch. Mae'r Ddeddf/Gorchymyn yn berthnasol ymhob rhan o'r berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig (er enghraifft, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiad, buddiannau, a disgyblaeth), diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth orffen. Mae'r Ddeddf/Gorchymyn yn ei gwneud yng nghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu unrhyw un ar sail eu rhyw, wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd, cartrefi a'r ymdriniaeth neu reolaeth o eiddo, addysg a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae eithriadau cyfyngedig sydd yn caniatáu cyfleusterau un rhyw. **Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol (Prydain Fawr)** (gweler Dyletswyddau Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon isod) Gofynnir i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, i ddiddymu camwahaniaethu anghyfreithlon (gan gynnwys torri'r Ddeddf Cyflog Cyfartal) ac aflonyddu, ac i hyrwyddo cydraddoldeb rhyw. Nodyn. Gall y ddyletswydd fod yn berthnasol i sefydliadau yn y sectorau preifat a gwirfoddol sydd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus a restrwyd ymgynghori a pharatoi Cynllun Cydraddoldeb Rhyw yn datgan eu hamcanion, a rhaid iddynt asesu effaith eu polisïau a'u harferion ar gydraddoldeb rhyw, ac adrodd yn flynyddol ar gynnydd. Mae'r Ddeddf yn galluogi pobl drawsrywiol i geisio am gydnabyddiaeth gyfreithiol o'u rhywedd newydd. Mae'r Ddeddf yn nodi'r meini prawf sydd angen eu bodloni ar gyfer darparu tystysgrif cydnabod rhywedd. Pan fydd tystysgrif lawn wedi ei darparu bydd gan y person hawl i dystysgrif geni newydd yn adlewyrchu'r rhywedd newydd a bydd modd iddynt briodi rhywun o'r rhyw arall i'w rhywedd newydd. Os bydd person yn cael triniaeth lai ffafriol ar sail eu rhywedd newydd, bydd hyn yn gamwahaniaethu rhywiol.	**Cau'r Bwlch Cyflog** www.closethegap.org.uk **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** www.equalityhumanrights.com (gweler manylion cyswllt allweddol) **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **ACAS** www.acas.org.uk (gweler manylion cyswllt allweddol)

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
HIL	**Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 / Gorchymyn 1997 (GI) (fel y'i diwygiwyd)**	**Gwahardd camwahaniaethu ar sail hil** Mae'r Ddeddf/Gorchymyn yn ei gwneud yn anghyfreithlon camwahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu unrhywun ar sail eu hil, lliw, cenedligrwydd, neu wreiddiau ethnig neu genedlaethol. Mae pob grŵp hil wedi eu hamddiffyn rhag camwahaniaethu. Yn berthnasol i: ● gyflogaeth - drwy gydol y berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig (er enghraifft, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiad, buddiannau, disgyblaeth), diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth ddod i ben ● hyfforddiant galwedigaethol ● cynllunio ● tai, ac ymdriniaeth/rheolaeth o eiddo ● darpariaeth o nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ● addysg, a ● cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae rhai eithriadau cyfyngedig iawn, gan gynnwys eithriadau ar gyfer sefydliadau ac elusennau sydd a'u prif amcan i ddarparu budd i bobl o grŵp hil arbennig (heb ei ddiffinio ar sail lliw). Mae 'sail hil' yn cynnwys canfyddiad fod person o hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, neu gysylltiad person gyda phobl eraill o hil, lliw a.y.b. arbennig Dyletswydd Cydraddoldeb Hil (Prydain Fawr) (gweler Dyletswyddau Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon) Mae'r Ddeddf yn mynnu fod awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn: ● diddymu camwahaniaethu anghyfreithlon ● hyrwyddo cyfle cyfartal, ac yn ● hyrwyddo cysylltiadau hil da. Nodyn. Gall fod yn berthnasol i sefydliadau yn y sectorau preifat a gwirfoddol pan fo hyn wedi ei nodi mewn cytundeb gydag awdurdod cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus a restrwyd gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hil; mae gan y rhan fwyaf o gyflogwyr awdurdod cyhoeddus ddyletswyddau monitro cydraddoldeb hil, ac mae gofyn i ysgolion a cholegau fonitro staff a disgyblion/rhieni fesul grwp hil.	**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** www.equalityhumanrights.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **ACAS** www.acas.org.uk (gweler manylion cyswllt allweddol)

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
ANABLEDD	**Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995** **(fel y'i diwygiwyd)**	**Gwahardd camwahaniaethu ar sail anabledd** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithlon i: ● gamwahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu ar berson anabl am reswm yn gysylltiedig â' i hanabledd, a ● fethu cydymffurfio â'r cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol. Yn berthnasol i: ● gyflogaeth – drwy gydol y berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig (er enghraifft, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiad, buddiannau, disgyblaeth), diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth ddod i ben. ● hyfforddiant galwedigaethol ● cartrefi, ymdriniaeth a rheolaeth o eiddo ● darpariaeth o nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ● addysg mewn ysgolion ac addysg bellach ● rhai ffurfiau o drafnidiaeth a gwasanaethau cysylltiedig â thrafnidiaeth ● sefydliadau a chlybiau ● cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd camwahaniaethu uniongyrchol mewn cyflogaeth ar sail anabledd person, er enghraifft, diswyddo gweithiwr gweinyddol pan dderbyniodd ddiagnosis positif ar gyfer HIV. Mae'r cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol yn berthnasol i gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth. Gall addasiadau rhesymol gynnwys: ● gosod ramp wrth neu yn lle grisiau ● darparu gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau a fformatau ● adolygu anghenion swydd ● newid oriau gwaith ● gwella mynediad i doiledau neu gyfleusterau ymolchi. ● darparu meddalwedd neu galedwedd arbenigol ● darparu cynorthwyydd neu ddehonglydd.	**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** www.equalityhumanrights.org. Llinell gymorth: (gweler manylion cyswllt allweddol) **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **Fforwm y Cyflogwyr ar Anabledd** www.employers-forum.co.uk. Ffôn: 020 7403 3020 Typetalk: 020 7403 0040 enquiries@employers-forum.co.uk **ACAS** www.acas.org.uk (gweler manylion cyswllt allweddol)

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
ANABLEDD (parhad)	**Deddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd 1995** **(fel y'i diwygiwyd)**	Bydd beth sy'n 'addasiad rhesymol' yn dibynnu ar effeithiolrwydd y mesur, pa mor ymarferol ydyw, y gost mewn perthynas ag adnoddau ariannol ac eraill y cyflogwr neu'r darparwr gwasanaeth ac argaeledd cymorth ariannol neu arall. (Nodyn. Gall y Cynllun Mynediad at Waith yn aml ddiwallu rhai o gostau addasiadau ar gyfer gweithwyr.) **Diffiniad anabledd** Dan y Ddeddf, person anabl yw rhywun sydd ag amhariad corfforol neu feddyliol sydd yn cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei g/allu i gyflawni gweithgareddau dyddiol cyffredin. Mae'n rhaid bod yr amhariad wedi bodoli neu yn debygol o fodoli am o leiaf 12 mis, ac mae'n rhaid iddo effeithio ar allu'r person i gyflawni gweithgareddau dyddiol cyffredin, yn cynnwys un o'r canlynol: ● symudedd ● medrusrwydd â dwylo ● cytgord corfforol ● ymataliaeth ● y gallu i godi, cario neu symud gwrthrychau cyffredin ● lleferydd, clyw neu olwg ● cof neu'r gallu i ganolbwyntio, dysgu neu ddeall, neu ● canfyddiad o'r risg o berygl corfforol. **Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd (Prydain Fawr)** (gweler dyletswyddau cydraddoldeb Gogledd Iwerddon) Mae'r Ddeddf yn mynnu fod awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl ac yn diddymu camwahaniaethu. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd annog cyfranogiad pobl anabl mewn bywyd cyhoeddus, hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl a chymryd i ystyriaeth anableddau pobl anabl hyd yn oed pan fydd hynny yn golygu rhoi triniaeth fwy ffafriol i bobl anabl. Nodyn. Gall y ddyletswydd hon fod yn berthnasol i sefydliadau yn y sectorau preifat a gwirfoddol os ydynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus a restrwyd hefyd, wedi ymgynghori â phobl anabl, gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd gyda'u cynlluniau ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau hyn a rhaid iddynt hefyd asesu a monitro effaith eu polisïau a'u harferion ar gydraddoldeb i bobl anabl a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd.	**Adran Gwaith a Phensiynau** www.dwp.gov.uk

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
CYFEIRIADEDD RHYWIOL	**Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003 / Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) (Gogledd Iwerddon) 2003** **Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2006 / Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) (Gogledd Iwerddon) 2006** **Deddf Partneriaeth Sifil 2004**	Mae'r rheoliadau yn eu gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu ar berson ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r rheoliadau yn berthnasol i: ● gyflogaeth drwy gydol y broses gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig (er enghraifft, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiad, buddiannau, disgyblaeth) diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth ddod i ben ● hyfforddiant galwedigaethol ● addysg bellach ac uwch. Mae "ar sail cyfeiriadedd rhywiol" yn cynnwys canfyddiad, cywir ai peidio, fod person yn lesbaidd, hoyw neu ddeurywiol, a chysylltiad person gyda phobl eraill sydd yn lesbaidd, hoyw neu ddeurywiol. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn (ac yng Ngogledd Iwerddon i aflonyddu ar) berson ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn y meysydd canlynol: ● darpariaeth o nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau ● tai a'r ymdriniaeth a rheolaeth o eiddo ● addysg ● cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae rhai eithriadau cyfyngedig, gan gynnwys elusennau sydd yn darparu gwasanaethau yn benodol i bobl oherwydd, neu yn sgil, eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithlon i drin rhywun yn llai ffafriol oherwydd eu bod mewn partneriaeth sifil. Mae partneriaeth sifil yn berthynas rhwng pobl o'r un rhyw, sydd wedi cael ei chydnabod yn gyfreithiol. Mae gan bartneriaid sifil nawr hawliau a chyfrifoldebau tebyg i barau priod mewn materion fel treth, pensiwn, cyflogaeth a hawliau cyfartal. Mae'n gamwahaniaethu anghyfreithlon i drin partner sifil yn llai ffafriol na pherson priod mewn amgylchiadau cyffelyb.	**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** www.equalityhumanrights.org Llinell gymorth (gweler manylion cyswllt allweddol) **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **Stonewall** Ffôn: 0207 593 1850 www.stonewall.org.uk **ACAS** www.acas.org.uk Equality Direct llinell gymorth ar gyfer cyflogwyr bychain Ffôn: 08456 003444

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
CREFYDD neu GRED	**Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003** (ar gyfer Gogledd Iwerddon gweler Gorchymyn Cyflogaeth a Thriniaeth Deg) **Deddf Cydraddoldeb 2006 Rhan 2, Crefydd neu Gred** (ar gyfer Gogledd Iwerddon gweler Gorchymyn Cyflogaeth a Thriniaeth Deg isod)	Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gamwahaniaethu yn erbyn person ar sail crefydd neu gred y person hwnnw neu unrhyw berson arall, pan fo 'crefydd neu gred' yn golygu: ● unrhyw grefydd neu ddiffyg crefydd, ac ● unrhyw gred grefyddol neu athronyddol neu ddiffyg cred o'r fath. Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i aflonyddu ar berson ar sail crefydd neu gred, a allai gynnwys aflonyddu ar sail canfyddiad o grefydd neu gred y person (cywir ai peidio) ac ar sail eu cysylltiad â phobl o grefydd neu gred. Mae'r rheoliadau yn berthnasol i: ● gyflogaeth – drwy gydol y berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig (er enghraifft, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiad, buddiannau, disgyblaeth) diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth ddod i ben ● hyfforddiant galwedigaethol ● addysg bellach ac uwch. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gamwahaniaethu yn erbyn person ar sail crefydd neu gred y person hwnnw neu unrhyw berson arall yn y meysydd canlynol: ● darpariaeth o nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau ● tai a'r ymdriniaeth a rheolaeth o eiddo ● addysg ● cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Mae rhai eithriadau cyfyngedig, gan gynnwys elusennau sy'n darparu gwasanaethau yn benodol i bobl oherwydd, neu yn ôl, eu cred grefyddol.	**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** www.equalityhumanrights.org Llinell gymorth: (gweler manylion cyswllt allweddol) **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org. (gweler manylion cyswllt allweddol) **ACAS** www.acas.org.uk Equality Direct llinell gymorth ar gyfer cyflogwyr bychain Ffôn: 08456 003444

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
OEDRAN	**Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006 / Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) (Gogledd Iwerddon) 2006**	Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gamwahaniaethu yn erbyn person ar sail ei oedran/hoedran neu ganfyddiad o oedran, oni fedrir cyfiawnhau hyn fel modd cymesur o gyflawni nod teg. Mae hefyd yn anghyfreithlon i aflonyddu ar berson ar sail oedran. Mae amddiffyniad rhag gwahaniaethu ac aflonyddu yn berthnasol nid yn unig i i bobl hÐn, ond i bobl o bob oed. Mae'r rheoliadau yn berthnasol i: ● gyflogaeth – drwy gydol y berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig (er enghraifft, mynediad at hyfforddiant, dyrchafiad, buddiannau, disgyblaeth) diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth ddod i ben ● hyfforddiant galwedigaethol, ac ● addysg bellach ac uwch. Mae 65 oed nawr wedi ei osod fel yr oedran ymddeol, ac ni fydd yn gamwahaniaethu anghyfreithlon ar sail oedran i 'ymddeol' gweithiwr pan yn 65 oed neu 'oedran ymddeol arferol' dros 65 y sefydliad os dilynir y drefn statudol. Mae hyn yn mynnu fod cyflogwr yn hysbysu cyflogai o'i dyddiad ymddeol bwriedig o leiaf chwe mis o flaen llaw, eu cynghori o'u hawl i wneid cais i weithio y tu hwnt i'r dyddiad hwn, ac i ystyried unrhyw gais a ddaw (ond nid oes rheidrwydd ar gyflogwr i gytuno na rhoi rheswm am beidio cytuno).	**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** www.equalityhumanrights.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org (gweler manylion cyswllt allweddol) **ACAS** www.acas.org.uk (gweler manylion cyswllt allweddol) **Age Concern** Rhadffon: 0800 00 99 66 www.ageconcern.org.uk Fforwm Cyflogwyr ar Oedran Ffôn : 0845 456 2495 www.efa.org.uk **Age Positive**, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ffôn: 0113 232 4444 www.agepositive.gov.uk **Rhwydwaith Oedran yn y Gweithle** www.taen.org.uk. Tel: 020 7843 1590.

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
CYFREITHIAU CYDRADDOLDEB YNG NGOGLEDD IWERDDON	**Deddf Gogledd Iwerddon 1998 Adran 75 ac Atodlen 9**	**Dyletswyddau cydraddoldeb awdurdodau cyhoeddus** Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau yn ymwneud â Gogledd Iwerddon hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol: ● gred grefyddol ● barn wleidyddol ● rhywedd ● grwpiau hil ● oedran ● statws priodasol ● cyfeiriadedd rhywiol a rhwng ● pobl gyda a heb anabledd ● pobl gyda a heb ddibynyddion. Cyfeirir yn gyffredin at y rhain fel y naw dosbarth cydraddoldeb. Rhaid hefyd i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol gred grefyddol, barn wleidyddol a grŵp hil. Rhaid i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon gymeradwyo cynlluniau cydraddoldeb yr awdurdodau cyhoeddus, fydd yn dangos sut maent yn bwriadu cyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae disgwyl i awdurdod asesu'r effaith ar gydraddoldeb o bob un o'r naw dosbarth o'u polisiau presennol, a phan fo tystiolaeth o effaith niweidiol disgwylir iddynt adolygu neu newid y polisi, os yn bosibl, er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau cydraddoldeb.	**Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon** www.equalityni.org (gweler manylion cyswllt allweddol)

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
CYFREITHIAU CYDRADDOLDEB YNG NGOGLEDD IWERDDON parhad	**Gorchymyn Cyflogaeth a Thriniaeth Deg (Gogledd Iwerddon) 1998 (FETO)** **(fel y'i diwygiwyd)**	Mae FETO yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gamwahaniaethu yn erbyn neu aflonyddu ar berson ar sail cred grefyddol ac/neu farn wleidyddol yn y meysydd canlynol: ● cyflogaeth drwy gydol y berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, triniaeth tra'n gyflogedig, asesiad ac ymgynghoriad yn ymwneud â'r polisi hwnnw ● diswyddo ac wedi i'r gyflogaeth ddod i ben ● darpariaeth o nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau ● tai a gwerthiant a rheolaeth tir ac eiddo. Wrth wneud unrhyw benderfyniad yn ymwneud â pholisi, mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus gymryd i ystyriaeth unrhyw effaith cydraddoldeb ● addysg bellach ac uwch. Dan FETO rhaid i unrhyw gyflogwr yng Ngogledd Iwerddon sydd â mwy na 10 o weithwyr gofrestru gyda Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon, a rhaid iddynt fonitro eu gweithlu ar sail aelodaeth o'r cymunedau Catholig neu Brotestannaidd, a'u rhywedd ac anfon dychweliadau i'r Comisiwn. Gall methiant i gyflawni'r dyletswyddau hyn arwain at gyflogwr gael ei wahardd rhag cytundebau ac arian cyhoeddus. Mae elusennau sy'n darparu buddiannau i bobl o gred grefyddol neu farn wleidyddol arbennig wedi eu heithrio.	

Mater Cydraddoldeb	Cyfreithiau perthnasol	Prif ddarpariaethau	Sefydliadau a allai ddarparu gwybodaeth / cymorth pellach yn ymwneud â'r gyfraith
YR IEITHOEDD CYMRAEG A GAELEG	**Deddf yr Iaith Gymraeg 1993** **Deddf yr Iaith Gaeleg (yr Alban) 2005**	Mae'r Ddeddf yn mynnu, wrth gynnal busnes cyhoeddus a'r system gyfreithiol yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae adrannau o'r Llywodraeth sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, y llysoedd yng Nghymru ac awdurdodau cyhoeddus a restrwyd ac a hysbyswyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn gorfod cyhoeddi cynllun iaith Gymraeg yn esbonio sut maent yn bwriadu datblygu darpariaeth iaith Gymraeg o ran: ● cynllunio a darparu gwasanaeth ● delio â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith ● delwedd gyhoeddus y sefydliad. Nodyn. Gellir disgwyl i sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, fel amod o'u cytundeb gydag awdurdod cyhoeddus, gwrdd ag ymrwymiad iaith Gymraeg yr awdurdod, gan gynnwys darpariaeth gwasanaethau dwyieithog Uwchlaw hyn, gall cyrff cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol baratoi a mabwysiadu cynlluniau fel mynegiant o'u hymrwymiad at amrywiaeth ac i wasanaethu anghenion siaradwyr Cymraeg ac eraill fel ei gilydd. Drwy ddeddf sefydlwyd hefyd Bwrdd yr Iaith Gaeleg (Bord na Gaidhlig) i hyrwyddo'r defnydd a'r ddealltwriaeth o'r iaith Gaeleg. Mae rhaid i'r Bord ddatblygu cynllun iaith Gaeleg cenedlaethol, yn esbonio sut mae'n bwriadu cyflawni ei amcanion. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi'r awdurdod i'r Bord fynnu fod awdurdodau cyhoeddus yn paratoi ac yn mabwysiadu cynlluniau iaith Gaeleg, yn dangos sut fyddant yn defnyddio'r iaith wrth gyflawni eu swyddogaethau. Nid yw sefydliadau gwirfoddol wedi eu cynnwys yn benodol dan y Ddeddf ond gall fod disgwyl iddynt, fel amod o'u cytundeb gydag awdurdod cyhoeddus, gwrdd ag ymrwymiad iaith Gaeleg yr awdurdod hwnnw.	**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru** Ffôn: 029 20431700 www.wcva.org.uk **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** Ffôn: 029 2087 8000 www.bwrdd-yr-iaith.org.uk **Bord na Gaidhlig (Bwrdd yr Iaith Gaeleg)** Ffôn: 0 1463 225454 www. Bord-na-gaidhlig.org.uk

Cefnogaeth pellach B

Chwalu jargon

Mae bob maes yn datblygu ei 'iaith arbennig' a thermau technegol ei hun. Mae'r termau a ddefnyddir mewn gwaith cydraddoldeb yn tynnu ar iaith arbenigol:

- rheoli prosiect
- polisi cymdeithasol
- cyfraith cyflogaeth a chydraddoldeb.

Mae'r adran hon yn gosod rhai o'r termau mwyaf cyffredin a'r ystyr yng nghyd-destun nod y Gronfa Loteri Fawr o hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi.

Mae rhai o'r termau yn yr adran hon yn dermau cyfreithiol, ac os felly ceir croesgyfeiriad at yr adran flaenorol ar Gyfraith a Chydraddoldeb.

Ni ddylid dibynnu ar y diffiniadau a osodir isod wrth ddelio gydag unrhyw gwestiwn neu fater cyfreithiol, pan ddylid ceisio cyngor gan asiantaeth arbenigol addas (gweler y bennod Cyfraith a Chydraddoldeb am fanylion).

Materion hygyrchedd

Yr ystod eang o faterion y dylid eu hystyried i'w gwneud yn bosibl i wahanol fathau o bobl wybod am wasanaeth, ei ddefnyddio, a theimlo eu bod yn cael eu croesawu. Gall hygyrchedd, sy'n golygu mwy na hygyrchedd corfforol ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, gynnwys cyflawni anghenion cyfathrebu neu anghenion eraill pobl â gwahanol anableddau neu grwpiau â gwahaniaethau diwylliannol neu ieithyddol.

Gweithgareddau

Gweithredoedd, tasgau neu waith y mae prosiect neu sefydliad yn eu gwneud i gyflawni ei nodau.

Nod

Rheswm dros fodolaeth prosiect neu sefydliad a'r gwahaniaeth y mae am ei wneud. Gall nodau fod yn rhai cyffredinol neu benodol.

Buddiolwr

Rhywun sy'n elwa o brosiect.

Pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig

Term sy'n cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i gyfeirio at bobl sy'n perthyn i hil weledol leiafrifol neu grŵp ethnig nad yw'n grŵp dominyddol yn y DU.

Difreintiedig

Pobl sy'n cael llai o gyfleoedd na'r mwyafrif o bobl yn y gymdeithas o'u hamgylch, o ran un agwedd neu fwy o'u bywydau, er enghraifft, addysg, iechyd neu gyflogaeth, neu sy'n cael safon bywyd is o'i gymharu gyda'r rhai o'u hamgylch. Gall bod yn ddifreintiedig fod yn ganlyniad nifer o wahanol ffactorau bywyd, a all atgyfnerthu ei gilydd. Mae bod yn ddifreintiedig yn aml yn gysylltiedig gyda thlodi, gall fod yn ganlyniad patrymau o gamwahaniaethu neu eithrio; gall ddeillio o fathau eraill o wahaniaethau ymysg pobl. Mae anfantais yn amrywio o gymuned i gymuned ac o fewn cymunedau.

Anabledd

(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

At ddiben deddfwriaeth cydraddoldeb cyfredol mae anabledd yn nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith negyddol sylweddol a thymor hir ar allu person i wneud gweithgareddau dyddiol. Gall hyn gwmpasu pobl gydag ystod eang o namau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Pobl â chyflyrau iechyd tymor hir, megis clefyd y siwgr
- Pobl â chyflyrau cynyddol, megis clefyd motor niwron
- Pobl sydd wedi derbyn diagnosis am HIV, canser a sglerosis ymledol
- Pobl ag anableddau dysgu
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl sydd â phroblemau symud
- Pobl ddall a rhannol ddall
- Pobl fyddar a rhannol fyddar

Efallai na fydd pobl sy'n 'anabl' er pwrpasau budd-daliadau neu wasanaethau yn cael eu cwmpasu yn y diffiniad uchod, ac ni fydd pobl sydd o fewn y diffiniad yma o reidrwydd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau neu wasanaethau pendant.

Chwalu jargon

Camwahaniaethu uniongyrchol
(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Trin un person yn llai ffafriol na pherson arall mewn amgylchiadau tebyg.

Mae camwahaniaethu uniongyrchol ar sail hil, rhyw, ailbennu rhywedd, anabledd, oed, rhywioldeb, crefydd neu gred, neu statws priodasol neu bartneriaeth sifil, yn anghyfreithlon mewn cyflogaeth. Mae'n anghyfreithlon ar sail rhai neu bob un o'r meysydd hyn ym myd addysg, tai, darparu gwasanaethau cyhoeddus neu breifat, polisïau a gweithredoedd cyrff cyhoeddus.

Amrywiaeth
Cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau sy'n bodoli yn y ffactorau sy'n rhan o hunaniaeth pobl, megis rhyw, hil, ethnigrwydd, gallu corfforol a meddyliol, rhywioldeb, hunaniaeth rywiol, oed, statws economaidd, iaith, crefydd, cenedligrwydd, addysg a statws teuluol. Drwy dynnu ar y gwahaniaethau hyn, bydd amrywiaeth yn ysgogi ffyrdd newydd o feddwl, ehangu gorwelion pobl a galluogi pob unigolyn i gyfrannu at eu cymunedau, neu i weithgaredd neu sefydliad penodol.

Cydraddoldeb
Lle bo pob person mewn agwedd arbennig o'u bywydau yn medru cyfranogi, mwynhau buddiannau a goddef beichiau i'r un graddau a phob person arall.

Dyletswyddau cydraddoldeb
(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Y dyletswyddau cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus ym Mhrydain i ddiddymu camwahaniaethu ar sail hil, anabledd a rhyw, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ar y sail hon, a dyletswyddau cyrff cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon i hyrwyddo cydraddoldeb ar naw sail.

Asesiad effaith cydraddoldeb
Proses o brofi effaith polisi neu brosiect ar gydraddoldeb hil, anabledd, rhyw ayyb. Dylai asesiad effaith cydraddoldeb llawn gynnwys ymgynghoriad gyda grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y polisi neu brosiect.

Monitro cydraddoldeb
Casglu gwybodaeth am lwyddiant prosiect wrth gyflawni ei nodau cydraddoldeb. Mae monitro cydraddoldeb yn cael ei gyflawni er mwyn adrodd i'r Gronfa Loteri Fawr am bwy sydd wedi defnyddio'r prosiect neu'r gwaith a ariannwyd gan y Gronfa Loteri Fawr. Gall hefyd gynorthwyo sefydliad i wybod ble mae angen gwneud newidiadau i bolisïau neu arferion cyflogaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau.

Cyfle cyfartal
Sicrhau nad oes rhwystrau ar sail ffactorau amherthnasol, megis rhyw, hil, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, oed, statws economaidd, crefydd neu gred, cenedligrwydd, statws priodasol neu deuluol, sy'n rhwystro pobl rhag sicrhau cyflogaeth neu gael mynediad llawn at wasanaethau.

Polisi cyfle cyfartal
Dogfen sy'n gosod sut y bydd sefydliad yn rhwystro camwahaniaethu ac annog cyfle cyfartal wrth gyflogi pobl a darparu gwasanaethau, ac yn y ffordd y mae'n cael ei reoli.

Ethnigrwydd neu wreiddiau ethnig
Disgrifio'r cwlwm rhwng pobl sy'n rhannu hanes, teimlad o hunaniaeth, gwreiddiau daearyddol a diwylliannol. Gall hefyd gynnwys tarddiad hil rhywun, ond mae'n llawer mwy na hynny.

Grŵp ethnig
Grŵp o bobl sydd â'r un ethnigrwydd/tarddiad ethnig.

Gwerthuso
Defnyddio a monitro gwybodaeth arall i ffurfio barn am lwyddiant sefydliad, prosiect neu raglen o ran meini prawf neu ganlyniadau a gytunwyd. Gellir cynnal gwerthusiad mewnol neu allanol. (Gweler hunanwerthuso).

Rhywedd
Mae rhywedd yn cyfeirio at y dimensiwn cymdeithasol o fod yn wrywaidd neu fenywaidd a'r gwahaniaethau sydd wedi cael eu dysgu, sy'n

Chwalu jargon

gyfnewidiol dros amser a gall amrywio'n eang o fewn a rhwng diwylliannau.

Anghenion galwedigaethol gwirioneddol
(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Gellir caniatáu dewis, dyrchafu neu ddiswyddo ar sail hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd/cred neu oed penodol ar gyfer rhai swyddi lle bo natur y swydd neu'r cyd-destun yn gofyn yn wirioneddol am berthyn i hil, rhyw ayyb penodol.

Aflonyddu
(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Ymddygiad digroeso, nid o reidrwydd yn fwriadol, yn amrywio o jôcs neu graffiti i ymosodiad corfforol sy'n tanseilio hunan barch person neu'n creu awyrgylch ymosodol, bygythiol, cywilyddus neu sarhaus. Mae'n anghyfreithlon aflonyddu gweithiwr o ran ei hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred neu oed. Mae aflonyddu defnyddiwr gwasanaeth hefyd yn anghyfreithlon. Serch hynny, nid yw'r gyfraith yn berthnasol ar sail oed.

Agwedd gynhwysol
Darparu gweithgareddau neu wasanaethau ar gyfer y gymuned gyfan, a gweithredu er mwyn sicrhau bod pob unigolyn a grŵp yn gwybod ac yn medru defnyddio gwasanaethau neu gyfranogi mewn prosiect, yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u trin yn deg (gweler hefyd Materion hygyrchedd).

Camwahaniaethu anuniongyrchol
(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Gweithredu meini prawf, polisïau, rheolau ffurfiol neu anffurfiol neu unrhyw weithgareddau eraill, sy'n ymddangos eu bod yn 'niwtral' ac yn berthnasol i bawb, ond sydd yn arwain at anfantais i bobl o grŵp arbennig. P'run ai yn fwriadol neu beidio, mae camwahaniaethu anuniongyrchol ar sail hil, rhyw, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu oed yn anghyfreithlon os na ellir cyfiawnhau'r meini prawf, polisi ayyb fel ffordd angenrheidiol ac addas o gyflawni nod dilys.

Carreg filltir
Llwyddiant neu ddigwyddiad allweddol penodol sy'n nodi cam clir yn natblygiad prosiect.

Monitro
Casgliad a chofnod arferol, systematig o wybodaeth am brosiect, yn bennaf at bwrpas cadarnhau'r datblygiad yn unol gyda'r cynlluniau.

Camwahaniaethu lluosog
Camwahaniaethu yn erbyn person ar fwy nag un sail, er enghraifft trin menyw ddu yn llai ffafriol na menyw wen neu ddyn du mewn amgylchiadau tebyg.

Gwreiddiau cenedlaethol
Y genedl neu'r wlad y mae person yn uniaethu gyda hi drwy fagwraeth neu dras neu gwlwm diwylliannol, ieithyddol neu arall. Nid yw o reidrwydd yr un fath â chenedligrwydd cyfreithiol ac mae'n cynnwys, er enghraifft, tarddiadau cenedlaethol Cymreig, Albanaidd a Seisnig.

Cenedligrwydd
Y berthynas gyfreithiol rhwng person a gwlad lle mae ganddynt hawliau dinesydd llawn. Gall cenedligrwydd fod yn hawl yn sgil lleoliad genedigaeth, neu genedligrwydd rhieni, neu drwy broses brodori.

Canlyniadau
Y newidiadau, lles, problemau, dysg neu effeithiau eraill sy'n digwydd o ganlyniad i'r gwasanaethau neu weithgareddau a ddarparwyd gan sefydliad.

Gweithredu cadarnhaol
(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Mesurau sy'n cael eu caniatáu dan amgylchiadau cyfyngedig i rwystro neu wneud yn iawn am anfanteision o ran rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd/cred ac oed. Gall gweithredu cadarnhaol gynnwys annog pobl o grŵp sydd wedi'i dangynrychioli i ymgeisio am swyddi, hyfforddiant neu ddyrchafiad. Gall gweithredu cadarnhaol hefyd gynnwys gwneud unrhyw beth i gyfarfod anghenion

Chwalu jargon

arbennig addysgiadol, hyfforddiant neu les aelodau o grwpiau arbennig sy'n cael eu diffinio gan hil, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred. Nid oes cyfyngiadau ar weithredu cadarnhaol o unrhyw fath er lles pobl ag anableddau.

Addasiadau rhesymol

(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Gwneud newidiadau perthnasol i safleoedd, ffurfiau cyfathrebu, trefniant gwaith neu'r ffyrdd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu i alluogi pobl ag anableddau i gael eu cyflogi neu gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau. Bydd yr hyn sy'n 'rhesymol' yn ddibynnol ar amgylchiadau, gan gynnwys maint ac adnoddau sefydliad a natur y gyflogaeth neu wasanaethau.

Crefydd neu gred

Crefydd neu ddiffyg crefydd person neu gredoau crefyddol neu gred athronyddol, neu ddiffyg cred o'r fath.

Hunanwerthuso

Ffurf o werthuso lle mae pobl o fewn sefydliad yn ffurfio barn am berfformiad y sefydliad tuag at gyflawni ei nodau ac amcanion. Gwneir hyn fel rhan o reoli prosiect.

Darparwyr gwasanaethau

Busnesau a sefydliadau sector gyhoeddus, breifat neu wirfoddol sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gyda neu heb daliad. Maent yn cynnwys siopau, banciau, bwytai, canolfannau hamdden, tafarnau a chlybiau, cyfrifwyr, swyddfeydd post, yr heddlu, y llysoedd, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, a nifer o sefydliadau gwirfoddol.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Bod yn heterorywiol, hoyw neu ddeurywiol.

Allgáu cymdeithasol

Term cryno i ddisgrifio amgylchiadau unigolion, grwpiau neu gymunedau nad ydynt yn medru cyfranogi'n llawn mewn bywyd cyhoeddus na mwynhau'r buddiannau sydd ar gael yn gyffredinol o fewn y gymdeithas. Mae'n aml ar sail problemau cysylltiedig megis diweithdra, prinder addysg neu sgiliau, incwm isel, tai gwael, iechyd gwael a dirywiad teuluol.

Cydlyniant cymdeithasol/cydlyniant cymunedol

Sefyllfa lle mae:

- gan bawb ymdeimlad cryf o berthyn
- gan bobl gyfleoedd bywyd tebyg beth bynnag eu cefndir
- gwahaniaethau diwylliannol a gwahaniaethau eraill rhwng pobl yn cael eu gwerthfawrogi
- perthynas gref a chadarnhaol rhwng pobl o wahanol gefndiroedd.

Targed

Lefel o lwyddiant y mae prosiect neu sefydliad yn ei osod i'w hun i'w gyflawni mewn cyfnod penodol o amser.

Agwedd wedi'i dargedu

Cynllunio a darparu gwasanaeth neu weithgaredd ar gyfer grŵp penodol. Gellir mabwysiadu agwedd wedi'i dargedu pan fo gan grŵp anghenion arbennig na ellir ei gyflawni'n ddigonol o fewn gwasanaeth cyffredinol sy'n agored i bawb.

Erledigaeth

(Gweler yr adran Cyfraith a chydraddoldeb)

Trin rhywun yn annheg gan eu bod wedi gwneud neu wedi cefnogi cwyn am aflonyddu neu gamwahaniaethu anghyfreithlon, neu yn sgil tybiaeth eu bod wedi neu ar fin gwneud hynny. Mae erledigaeth yn cael ei drin fel ffurf o gamwahaniaethu anghyfreithlon.

Cefnogaeth pellach C

Siartiau cynllunio cydraddoldeb

Ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr

Mae'r siartiau a ganlyn wedi'u cynllunio i'ch helpu i feddwl am faterion cydraddoldeb wrth gynllunio eich prosiect.

Nid oes yn rhaid i chi wneud hyn oll gyda'i gilydd. Hwyrach y byddwch yn ei gweld hi'n well mynd i'r afael ag un cam ar y tro – ond mae yn bwysig cwblhau un cam cyn mynd i'r afael â'r nesaf, gan eu bod yn adeiladu ar ei gilydd.

Rydym wedi darparu'r siartiau fel ymdriniaeth awgrymedig, ond nid yw'n orfodol eu cwblhau ac nid oes gofyn i chi gyflwyno'r wybodaeth hon gyda'ch cais.

Awgrymiadau da ar gydraddoldeb

- Meddyliwch am faterion cydraddoldeb drwyddi draw'ch cais, nid yn unig fel ychwanegyn.
- Gwnewch gysylltiad rhwng y difreintiedig yn eich cymuned a sut y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r anfantais.
- Meddyliwch y tu hwnt i anghenion eich defnyddwyr cyfredol. Sut allwch chi sicrhau y bydd pobl gyda gwahanol fathau o anghenion yn gallu defnyddio'ch prosiect neu weithio i chi yn y dyfodol?
- Rhowch enghreifftiau pendant a real o sut y byddwch yn cymhwyso cydraddoldeb yn ymarferol. Peidiwch â bodloni ar ddweud bod gennych bolisi cyfle cyfartal – defnyddiwch y siartiau yr ydych chi wedi'u llenwi er mwyn rhoi enghreifftiau i'r Gronfa Loteri Fawr o sut ydych chi'n cymhwyso eich polisïau yn eich gwaith beunyddiol.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol oherwydd eich bod yn gweithio gydag un grŵp difreintiedig penodol eich bod wedi bodloni'ch holl ymrwymiadau cydraddoldeb. Mae'n bosibl eich bod yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal, ond a ydych chi hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion y rheini yn eu plith sy'n anabl, neu sy'n rhieni eu hunain?

Cam 1: deall yr angen a'ch buddiolwyr

Beth yw'r angen?	Pwy allai elwa o'r prosiect?	A ydym ni eisoes mewn cysylltiad â hwy?	Sut allwn ni gael gwybod yr hyn sydd ei angen arnynt?	Beth maen nhw wedi'i ddweud wrthym ynghylch eu hanghenion?
Disgrifiad cryno o'r broblem y dymunwch fynd i'r afael â hi. Byddwch yn benodol.	Disgrifiwch y bobl y gallai eich prosiect eu helpu. Meddyliwch am eich cymuned gyfan, nid dim ond y bobl yr ydych chi'n eu hadnabod yn barod. A oes unrhyw grwpiau yn wynebu anfantais benodol?	Rhestrwch ddefnyddwyr posibl yr ydych chi eisoes yn gweithio gyda hwy a defnyddwyr posibl nad ydych chi'n gweithio gyda hwy ar hyn o bryd.	Meddyliwch yn greadigol am sut y gallwch ymgynghori gyda phob mathau o ddefnyddwyr posibl. Meddyliwch yn benodol am y rheini nad ydych chi mewn cysylltiad â hwy ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn helpu chi i benderfynu pa weithgareddau fydd yn gwneud gwahaniaeth.	Llanwch bedwar i chwe mater allweddol sy'n deillio o'ch ymgynghoriad gyda defnyddwyr posibl.
*				

Awgrym:
Defnyddiwch y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn y siart hwn i'ch helpu i ateb cwestiynau'r Gronfa Loteri Fawr am:

- angen y prosiect
- buddiolwyr y prosiect.

Cam 2: Byddwch yn glir am eich nodau, canlyniadau a'r hyn y dymunwch ei wneud

Pa wahaniaethau yr ydym eisiau eu gwneud? (nod cyffredinol)	Beth yw'r prif newidiadau yr ydym ni eisiau eu gwneud? (canlyniadau bwriedig)	Beth fyddwn ni'n ei wneud er mwyn cyflawni hyn? (gweithgareddau)
Dylai hyn gynnwys beth yw'r broblem a'r gwahaniaeth cyffredinol y dymunwch ei wneud. Cadwch e'n syml.	Enwch hyd at chwe newid a fydd yn digwydd o ganlyniad i'ch prosiect. Defnyddiwch eiriau newid e.e. "mwy", "llai" "gwell" "amgen".	Dyma eich tasgau, eich gwasanaethau neu'ch gweithgareddau. Byddwch yn benodol a sicrhewch eu bod yn gysylltiedig â'r anghenion yr ydych chi wedi'u hadnabod a'r newidiadau y dymunwch eu gwneud. Defnyddiwch eiriau gweithredu megis darparu, gosod, rhedeg, creu, cynhyrchu ac yn y blaen.

Awgrym:

Defnyddiwch y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn y siart hwn i'ch helpu i ateb cwestiynau'r Gronfa Loteri Fawr am:

- crynodeb y prosiect
- canlyniadau'r prosiect
- dull cyflwyno'r prosiect neu "yr hyn y bwriadwch ei wneud".

Cam 3: Sut i gyrraedd eich grwpiau targed a'u galluogi i ddefnyddio'r prosiect

Materion mynediad Y pethau a all wahardd pobl neu achosi problemau i bobl a allai ddefnyddio eich prosiect.	Yr hyn yr ydym eisoes yn ei wneud Meddyliwch yn fanwl am ffyrdd yr ydych chi eisoes yn eu defnyddio er mwyn ceisio cael gwared ar rwystrau. Mae'r rhain yn bethau y gallwch ddweud wrth y Gronfa Loteri Fawr yr ydych yn eu gwneud yn eich gwaith beunyddiol.	Beth arall fyddai'n helpu ein grwpiau targed? Meddyliwch yn fanwl am sut y gallwch gael gwared ar y rhwystrau a adnabuwyd gennych yng ngholofn 1. Mae'r rhain yn bethau y gallwch ddweud wrth y Gronfa Loteri Fawr y bwriadwch eu gwneud yn y dyfodol er mwyn gwneud eich prosiect yn hygyrch.
Lleoliad		
Mynediad corfforol		
Costau		
Cyfathrebu		
Amseru'r gwasanaethau		
Cyfrifoldebau gofalu		
Bwyd ac ymborth		
Cyhoeddusrwydd a marchnata		
Pobl		

Awgrym:
Defnyddiwch y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi yn y siart hwn i'ch helpu i ateb cwestiynau'r Gronfa Loteri Fawr am:

- buddiolwyr y prosiect
- dull cyflwyno'r prosiect neu "yr hyn y bwriadwch ei wneud"
- cyfle cyfartal
- canlyniadau'r prosiect.

Cefnogaeth pellach D

Manylion cyswllt allweddol

Lloegr

Llinell Gymorth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rhadbost RRLL-GHUX-CTRX
Arndale House
Arndale Centre
Manceinion
M4 3EQ.
0845 604 6610 – Prif rif Lloegr
0845 604 6620 – Llinell destun Lloegr
0845 604 6630 – Ffacs Lloegr
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9:00 am-5:00 pm;
Mercher 9:00 am-8:00 pm (galwad olaf am 7:45pm)

Cymru

Llinell Gymorth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

Rhadbost RRLR-UEYB-UYZL
Llawr 1af
3 Callaghan Square
Caerdydd
CF10 5BT.
0845 604 8810 – Prif rif Cymru
(gwasanaeth dwyieithog)
0845 604 8820 – Llinell Destun Cymru
0845 604 8830 – Ffacs Cymru
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9:00 am-5:00 pm;
Mercher 9:00 am-8:00 pm (galwad olaf am 7:45pm)

Yr Alban

Llinell Gymorth Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yr Alban

Rhadbost RRLL-GYLB-UJTA
The Optima Building
58 Robertson Street
Glasgow
G2 8DU.
0845 604 5510 – Prif rif yr Alban
0845 604 5520 – Llinell Destun yr Alban
0141 228 5912 – Ffacs yr Alban
Llun, Mawrth, Iau, Gwener 9:00 am-5:00 pm;
Mercher 9:00 am-8:00 pm (galwad olaf am 7:45pm)

Gogledd Iwerddon

Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon

Equality House
7-9 Shaftesbury Square
Belfast
BT2 7DP.
028 90 500 600 –Prif rif
028 90 500 589 – Ffon testun
028 90 890 890 – Llinell ymholiadau
028 90 248 687 – Ffacs
Ebost: information@equalityni.org
Ffurflen ymholiadau arlein: see www.equalityni.org

ACAS

www.acas.org.uk
Llinell gymorth Equality Direct ar gyfer cyflogwyr bychain
Ffôn: 08456 003444
Gweler 'Tackling Discrimination and Promoting Equality: Good Practice Guide for Employers'